**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Deisebau

# Darpariaeth dysgu seiliedig ar waith ar gyfer pobl ifanc sy'n agored i niwed

Rhagfyr 2010

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


Y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8393
Ffacs: 029 2089 8021
e-bost: Petition@wales.gov.uk



© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Deisebau

# Darpariaeth dysgu seiliedig ar waith ar gyfer pobl ifanc sy'n agored i niwed

Rhagfyr 2010

## Y Pwyllgor Deisebau

Rôl y Pwyllgor Deisebau yw ystyried deisebau a gyflwynir gan y cyhoedd, a bwrw ymlaen â'r mater ar ran y deisebwyr.

## Pwerau

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 26 Mehefin 2007 gan y Cynulliad i ystyried deisebau a gyfeirir at y Pwyllgor gan y Llywydd. Mae ganddo'r pŵer i weithredu mewn unrhyw fodd y mae'r Pwyllgor o'r farn ei fod yn briodol o ran y ddeiseb.

## Aelodaeth y pwyllgor

| *Aelod o'r Pwyllgor* | *Plaid* | *Etholaeth neu Ranbarth* |
|---|---|---|
| Christine Chapman | Llafur | Cwm Cynon |
| Andrew RT Davies | Plaid Geidwadol Cymru | Canol De Cymru |
| Veronica German | Democratiaid Rhyddfrydol Cymru | Dwyrain De Cymru |
| Bethan Jenkins | Plaid Cymru | Gorllewin De Cymru |

# Cynnwys


**Argymhellion y Pwyllgor ..... 5**

**1. Cefndir i'r ymchwiliad ..... 9**

**2. Dysgu seiliedig ar waith yng Nghymru ..... 11**

**3. Profiadau o ddysgu seiliedig ar waith ..... 12**

Profiadau cadarnhaol o ddysgu seiliedig ar waith ..... 13

Profiadau negyddol o ddysgu seiliedig ar waith ..... 15

Caffael sgiliau sylfaenol ..... 17

Y lleoliadau hyfforddiant priodol sydd ar gael ..... 19

Cyfleoedd ar gyfer cynnydd ..... 23

**4. Cymorth personol i bobl ifanc sy'n agored i niwed ..... 25**

Cronfa Cymorth Dysgu Ychwanegol ..... 28

Cymorth i gyflogwyr ..... 28

**5. Cymorth ariannol i bobl ifanc a ariennir yn annibynnol ..... 29**

Gwahaniaethau rhwng incwm myfyrwyr mewn Addysg Bellach a'r rheini ar raglenni dysgu seiliedig ar waith. ..... 30

Costau teithio ..... 31

Ffactorau eraill sy'n arwain at galedi ariannol ..... 32

Newidiadau arfaethedig i lwfansau hyfforddi ..... 34

**6. Ansawdd darpariaeth dysgu seiliedig ar waith ..... 36**

Meini prawf mynediad ar gyfer rhaglenni dysgu seiliedig ar waith ..... 36

Mesur profiad y dysgwr ..... 37

Cyfradd 'gadael cyn gorffen' ..... 38

Mynd i'r afael â pherfformiad gwael ..... 38

**7. Effeithiolrwydd gweithio mewn partneriaeth a chydweithio rhwng asiantaethau ..... 39**

Rhwystrau rhag gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth ..... 40

Gwelliannau i gydweithio ..... 42

**8. Casgliadau ..... 42**

**Atodiad A: Tystion ..... 45**

**Atodiad B: Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig ........................................... 46**
**Atodiad C: Ymatebion i'r Ymgynghoriad ...................................................... 47**

## Argymhellion y Pwyllgor

Mae argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru i'w gweld isod, yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr Adroddiad hwn. Cyfeiriwch at y tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth a'r casgliadau ategol:

**Recommendation 1.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod Gyrfa Cymru a darparwyr dysgu unigol yn ymgymryd ag asesiad digonol a chadarn o anghenion er mwyn sicrhau bod darpariaeth wedi'i chynllunio ar sail anghenion dysgwyr unigol. **(Tudalen 17)**

**Recommendation 2.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n cefnogi datblygu fframwaith arfer gorau ar gyfer caffael sgiliau sylfaenol. Dylai'r fframwaith hwn annog darparwyr i gyflenwi rhaglenni sgiliau sylfaenol yn y modd mwyaf addas a phriodol i ddysgwyr. **(Tudalen 19)**

**Recommendation 3.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n ymchwilio i ddichonoldeb cyflwyno rhaglen o gyrsiau paratoadol i alluogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau mwyaf sylfaenol cyn ymuno â rhaglenni dysgu seiliedig ar waith ffurfiol. Dylid ystyried a ellid rhoi rhaglenni sydd eisoes wedi'u sefydlu ar waith yn effeithiol ledled Cymru. **(Tudalen 19)**

**Recommendation 4.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod arfer gorau rhwng darparwyr wrth sicrhau lleoliadau'n cael ei ledaenu a'i rannu â'r holl ddarparwyr dan gontract. Dylid cwblhau hyn mewn pryd ar gyfer dechrau'r contractau newydd yn 2011. **(Tudalen 22)**

**Recommendation 5.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n arddel rôl fwy strategol wrth hybu buddion dysgu seiliedig ar waith i helpu i gael mwy o gyflogwyr i gymryd rhan. Dylai'r gwaith hwn ganolbwyntio ar annog cyflogwyr i dderbyn yr holl ddysgwyr, gan gynnwys y rheini sydd fwyaf agored i niwed, a sicrhau bod cyflogwyr yn y meysydd sector hynny lle mae yna fwy o alw nag sydd o leoedd yn cymryd rhan. Dylid canolbwyntio'n benodol hefyd ar ardaloedd gwledig ac ardaloedd eraill sydd â chysylltiadau trafnidiaeth gwael, lle ceir anawsterau ychwanegol wrth sicrhau lleoliadau. **(Tudalen 23)**

**Recommendation 6.** Fel rhan o arddel rôl fwy strategol, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n ystyried a fyddai rhaglen dysgu seiliedig ar waith benodol sy'n canolbwyntio ar y sector gwirfoddol yn helpu i wella cyfleoedd a chyfraddau cynnydd ar gyfer y rheini sydd fwyaf agored i niwed. **(Tudalen 23)**

**Recommendation 7.** Rydym hefyd yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n ystyried yr argymhellion hynny a ddaw i'r fei o adolygiad y DU o ymgysylltiad cyflogwyr a fydd yn helpu i gynyddu lleoliadau. **(Tudalen 23)**

**Recommendation 8.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n llunio protocolau i sicrhau bod trefniadau pontio rhwng darparwyr yn cael eu gwella, fel nad oes unrhyw rwystrau ychwanegol rhag gwneud cynnydd. **(Tudalen 24)**

**Recommendation 9.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod yr holl ddarparwyr yn bodloni eu gofynion i nodi unrhyw anghenion dysgwr am gymorth ychwanegol ar ddechrau'r cwrs. **(Tudalen 25)**

**Recommendation 10.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n adeiladu ar waith yr Adran Gwaith a Phensiynau i sicrhau nad yw diffyg rhannu gwybodaeth yn rhwystr rhag cymorth personol effeithiol. Fel rhan o hyn, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr holl asiantaethau'n ymwybodol o wahanol swyddogaethau a chyfrifoldebau ei gilydd wrth ddarparu cymorth i bobl ifanc sy'n agored i niwed. **(Tudalen 26)**

**Recommendation 11.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n ymchwilio i ddichonoldeb darparu cynghorydd personol i bobl ifanc sy'n byw'n annibynnol ond nad ydynt yn gadael gofal. **(Tudalen 27)**

**Recommendation 12.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod rôl yr anogwr dysgu'n cael ei diffinio'n ddigon eglur i sicrhau y daw cymorth personol yn fwy cyson ac effeithiol i'r rheini sydd fwyaf agored i niwed. Dylai'r rôl hon sicrhau bod yna gynllun mentora effeithiol ar gyfer pob dysgwr. **(Tudalen 28)**

**Recommendation 13.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n adolygu sut mae darparwyr yn cyrchu'r gronfa cymorth dysgu ychwanegol, ac yn cael gwared â'r rhwystrau sy'n ei gwneud hi'n fwy

anodd i ddarparwyr ei chyrchu ar gyfer pobl ifanc nad oedd ganddynt 'ddatganiad' yn yr ysgol. (**Tudalen 28)**

**Recommendation 14.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n nodi ffyrdd y gellir cefnogi cyflogwyr yn agosach ac yn eu rhoi ar waith i helpu i gynnal lleoliadau ar gyfer pobl ifanc sy'n agored i niwed. **(Tudalen 29)**

**Recommendation 15.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n cyflwyno cymorth ychwanegol ar gyfer y rheini sy'n byw'n annibynnol ac sydd ar raglenni dysgu seiliedig ar waith o ddechrau'r contractau dysgu seiliedig ar waith newydd yn 2011. Dylid cyflwyno newidiadau i sicrhau bod eu hincwm wythnosol yn gyson ag incwm y rheini sy'n byw'n annibynnol ac sy'n dilyn cyrsiau amser llawn mewn addysg bellach. **(Tudalen 31)**

**Recommendation 16.** Rydym yn argymell bod y Llywodraeth, fel rhan o'i hadolygiad o drefniadau cymorth ar gyfer costau, yn ystyried sut orau y gellir cefnogi'r rheini sydd fwyaf agored i niwed fel nad yw costau a logisteg teithio'n eu rhwystro rhag cymryd rhan. Fel rhan o'i hystyriaethau, dylai'r Llywodraeth ystyried a ddylai'r darparwr dalu am gostau teithio o flaen llaw ar gyfer y rheini sydd fwyaf agored i niwed, yn hytrach na defnyddio system ad-dalu. **(Tudalen 32)**

**Recommendation 17.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n darparu canllawiau i ddarparwyr rhaglenni dysgu seiliedig ar waith i sicrhau bod penderfyniadau sy'n ymwneud â didynnu tâl yn ystyried sefyllfa unigol y dysgwr ac nad ydynt yn achosi caledi anghymesur. **(Tudalen 33)**

**Recommendation 18.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod unrhyw newidiadau i lwfansau hyfforddi'n ystyried y set benodol o amgylchiadau y mae pobl ifanc sy'n agored i niwed yn eu hwynebu, ac nad ydynt yn arwain at incwm llai. **(Tudalen 35)**

**Recommendation 19.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n egluro'r newidiadau arfaethedig i lwfansau hyfforddi yn well ar gyfer darparwyr hyfforddiant a sefydliadau cymorth i sicrhau eu bod yn gallu cynghori darpar ddysgwyr orau ar yr opsiynau sydd ar gael iddynt ac ar effaith ariannol eu penderfyniadau. **(Tudalen 36)**

**Recommendation 20.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n dechrau casglu data ynghyd sy'n ymwneud â phrofiad y dysgwr, ac yn

ei fonitro. Rydym o'r farn ei bod yn hanfodol cael ffordd effeithiol i asesu profiadau dysgwyr o ddysgu seiliedig ar waith. Dylai hyn fod yn elfen allweddol o reoli perfformiad a dylid dechrau eu casglu fel rhan o'r contractau dysgu seiliedig ar waith newydd. **(Tudalen 37)**

**Recommendation 21.** Rydym hefyd yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n ymchwilio i ffyrdd y gellir mesur a monitro effeithiolrwydd cymorth bugeiliol fesul darparwr yn y contractau dysgu seiliedig ar waith newydd, er mwyn sicrhau cysonder rhwng yr holl ddarparwyr. **(Tudalen 38)**

**Recommendation 22.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n sefydlu goddefiad 'gadael cyn gorffen' derbyniol ar gyfer darparwyr ac yn monitro darparwyr yn erbyn hyn o ddechrau'r contractau dysgu seiliedig ar waith newydd. **(Tudalen 38)**

**Recommendation 23.** Rydym yn argymell bod protocolau eglur yn cael eu sefydlu i alluogi Gyrfa Cymru i ddwyn sylw Llywodraeth Cymru ac Estyn at bryderon ynglŷn â pherfformiad gwael, a bod holl wasanaethau Gyrfa Cymru'n defnyddio'r protocolau hyn i ddod â meysydd pryder i'r amlwg. **(Tudalen 39)**

**Recommendation 24.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n dynodi asiantaeth arweiniol, megis Gyrfa Cymru, i weithio ar lefel leol i sicrhau cydweithio a gweithio mewn partneriaeth effeithiol ar gyfer pobl ifanc sy'n agored i niwed. Fel rhan o hyn, rydym yn argymell ymgymryd ag ymarfer mapio i nodi'r holl sefydliadau sy'n darparu cymorth i bobl ifanc sy'n agored i niwed. **(Tudalen 41)**

**Recommendation 25.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n ystyried sut gellir cefnogi ac ariannu'r rhwydweithiau 14-19 orau i sicrhau eu bod yn cynnwys pob sector addysg, ac i hwyluso gweithio mor effeithiol â phosibl mewn partneriaeth. **(Tudalen 42)**

# 1. Cefndir i'r ymchwiliad

1. Cynhaliwyd yr ymchwiliad hwn yn sgil deiseb a gyflwynwyd ar 3 Rhagfyr 2009 gan Gweithredu dros Blant a oedd yn galw am welliannau i'r ddarpariaeth dysgu seiliedig ar waith ar gyfer pobl ifanc sy'n agored i niwed,

> Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i ddarparu mwy o leoliadau dysgu seiliedig ar waith sy'n fwy addas ar gyfer anghenion y bobl ifanc hynny sy'n fwy agored i niwed, ac sy'n eu symud ymlaen o ddifrif gan sicrhau eu bod yn ennill cymhwyster NVQ2 o leiaf. Yn benodol, byddem yn hoffi gweld rhagor o ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc ddigartref sydd am gael hyfforddiant ac nad ydynt yng ngofal awdurdod lleol.

2. Yn dilyn gohebiaeth gychwynnol â Llywodraeth Cymru,[1] gwnaethom gymryd tystiolaeth lafar oddi wrth y deisebwyr, gan gynnwys dau o bobl ifanc a oedd â phrofiad o fyw'n annibynnol tra'u bod yn dilyn rhaglen dysgu seiliedig ar waith.

3. Yn ystod y sesiwn dystiolaeth hon, clywodd y Pwyllgor am yr anawsterau y mae pobl ifanc sy'n byw'n annibynnol yn eu hwynebu, gydag un tyst yn disgrifio sut roedd wedi gorfod dewis rhwng gwres a bwyd.[2] O ganlyniad i hyn, roedd y Pwyllgor o'r farn bod angen ymchwiliad manylach i'r materion a godwyd yn y ddeiseb.

4. I ddechrau, ein nod oedd gweld a allai pwyllgor craffu fwrw ymlaen â'r gwaith hwn. Gwnaeth y Pwyllgor hefyd ganfasio barn Comisiynydd Plant Cymru a gadarnhaodd fod hyn yn fater a oedd yn haeddu ymchwiliad pellach. Rydym yn croesawu gwaith y Pwyllgor Menter a Dysgu a oedd yn edrych ar fater ehangach pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, er bod ei ganolbwynt yn rhy eang i ymchwilio'n fanwl i'r materion penodol a godwyd yn y ddeiseb hon. Fodd bynnag, rydym yn falch i'r Pwyllgor ystyried y ddeiseb hon fel rhan o'u hymchwiliad, ac rydym yn croesawu eu hargymhellion.

---

[1] Y Pwyllgor Deisebau PET(3) 04-10 Papur 02A: Atodiad i bapur 02
[2] Cofnod y Trafodion [para 101-107], 11 Mai 2010, Y Pwyllgor Deisebau

5. Rydym hefyd yn croesawu'r gwaith a wnaed ar fater ehangach diweithdra ymhlith pobl ifanc yng Nghymru. Cyhoeddwyd tri adroddiad yn ddiweddar: adroddiad Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru ar ddiweithdra ymhlith pobl ifanc; grŵp adolygu gweithrediad mewnol Llywodraeth Cymru ynglŷn â phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant; a gwaith y grŵp gorchwyl a gorffen ar ddiweithdra ymhlith pobl ifanc, dan gadeiryddiaeth Martin Mansfield. Ar sail yr argymhellion a wnaed, mae Llywodraeth Cymru'n bwrw ymlaen â rhaglen waith i fynd i'r afael ag ymgysylltiad a chyflogaeth pobl ifanc.[3] Rydym yn gobeithio y gall ein hargymhellion helpu i gyfrannu at y gwaith hwn.

6. Dyma oedd y cylch gorchwyl:

Diben yr ymchwiliad hwn yw edrych yn fanwl ar brofiadau pobl ifanc sy'n agored i niwed; yn enwedig y rheini sy'n byw'n annibynnol, ac sy'n dilyn rhaglenni dysgu seiliedig ar waith.

- Argaeledd ac ansawdd rhaglenni hyfforddi a lleoliadau gwaith, yn enwedig lleoliadau sy'n addas ar gyfer pobl ifanc sy'n agored i niwed
- Dilyniant ar gyfer y person ifanc sy'n agored i niwed, gan adeiladu ar y sgiliau a'r cymwysterau a gafwyd yn y lleoliad blaenorol
- Cymorth ariannol ar gyfer pobl ifanc sy'n cael eu hariannu'n annibynnol, gan gynnwys lwfansau hyfforddi, Lwfans Cynhaliaeth Addysg, budd-daliadau ac arian ar gyfer costau teithio
- Cymorth personol ar gyfer pobl ifanc sy'n agored i niwed, gan gynnwys gwahaniaethau mewn lefelau o gefnogaeth ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal
- Pa mor effeithiol yw'r cydweithio/gweithio mewn partneriaeth rhwng asiantaethau yng Nghymru

7. Roedd yna alwad agored am dystiolaeth ysgrifenedig lle gwnaethom bwysleisio y byddem yn croesawu clywed am brofiadau pobl ifanc yn arbennig. Cafodd y Pwyllgor ymateb cadarnhaol i'r alwad hon am dystiolaeth, gan dderbyn 25 o ymatebion, a hoffem ddiolch i

---

[3] Papur y Pwyllgor Deisebau, PET(3)-13-10 Papur 1, Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes

bawb a ymatebodd. Mae rhestr lawn o'r dystiolaeth ar gael yn Atodiad B.

8. Gwnaethom hefyd gymryd tystiolaeth lafar mewn tri chyfarfod yn ystod tymor gaeaf 2010 oddi wrth chwe sefydliad gwahanol a Llywodraeth Cymru. Rydym yn ddiolchgar i bawb a allodd gyfrannu at yr ymchwiliad hwn.

## 2. Dysgu seiliedig ar waith yng Nghymru

9. Mae yna ddau brif gynllun dysgu seiliedig ar waith yng Nghymru, sef Adeiladu Sgiliau a phrentisiaethau.[4]

10. Mae Adeiladu Sgiliau'n datblygu sgiliau galwedigaethol trwy leoliadau blas ar waith. Mae ganddo nod hefyd i ddatblygu sgiliau meddalach trwy ddosbarthiadau meithrin cymhelliant a hyder, cymorth â sgiliau sylfaenol a hyfforddiant cyn-cyflogaeth penodol. Mae hyn yn agored i ddysgwyr o bob oed, ac nid oes hyd penodol i gwrs. Mae'n rhaid i ddysgwyr ifanc rhwng 16 a 18 oed fod â chytundeb oddi wrth eu swyddfa Gyrfa Cymru leol i ymgofrestru ar y rhaglen Adeiladu Sgiliau.

11. Yn 2009/10, darparodd y rhaglen Adeiladu Sgiliau hyfforddiant ar gyfer oddeutu 10,200 o bobl rhwng 16 a 18 oed a hyd at 6,000 o ddysgwyr sy'n oedolion.[5]

12. Mae prentisiaethau'n cynnig rhaglenni dysgu seiliedig ar waith ar gyfer dysgwyr cyflogedig, ac yn darparu pont rhwng dysgu amser llawn a chyflogaeth. Maent ar gael ar dair lefel trwy raglenni dysgu seiliedig ar waith: Sylfaen (lefel 2); Prentisiaeth (lefel 3); ac Uwch (lefel 4). Nod prentisiaethau yw datblygu sgiliau trosglwyddadwy dysgwyr a datblygu eu gallu i ymgymryd â sgíl neu fasnach benodol ar yr un pryd.

13. Yn 2008-09, roedd yna 84 o ddarparwyr rhaglenni dysgu seiliedig ar waith yng Nghymru.[6] Fe'u caffaelwyd trwy dendr agored. Mae contract presennol darparwyr yn para tan 31 Gorffennaf 2011. Agorwyd y broses dendro ar gyfer contractau dysgu seiliedig ar waith

---

[4] Papur y Pwyllgor Deisebau, PET(3)-13-10 Papur 1, Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes

[5] Ibid

[6] Adroddiad Blynyddol Estyn, 2008-09, Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2008-2009

o 2011/2014 ym mis Gorffennaf 2010, a bydd contractau newydd yn dechrau ar 1 Awst 2011.

14. Mae Estyn yn arolygu rhaglenni dysgu seiliedig ar waith. Arolygodd Estyn 16 o ddarparwyr ac ailarolygodd ddau yn 2008/09. Yn ôl graddau Estyn, roedd 77% o'r meysydd dysgu'n dda neu'n well, gyda 22% o'r rhain yn dangos nodweddion eithriadol. Roedd gan 75% o sesiynau addysgu yr arsylwyd arnynt nodweddion da neu eithriadol. Fodd bynnag, mae perfformiad wedi dirywio o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, oherwydd perfformiad gwael tri darparwr y mae contract un ohonynt wedi'i derfynu.[7]

15. Bu Swyddfa Archwilio Cymru wrthi'n ymchwilio i bryderon ynglŷn â dysgu seiliedig ar waith yng Nghymru yn 2006, gan edrych ar y rheolaethau ariannol a'r rheolaethau ansawdd ar gyfer dysgu seiliedig ar waith a nodi gwendidau difrifol.[8] Daeth yr adroddiad dilynol i'r casgliad y bu gwelliannau sylweddol i reolaeth ariannol ac ansawdd dysgu, oherwydd trefniadau archwilio a rheoli perfformiad cryfach, ond er hynny nid oedd gwersi'n cael eu cymhwyso'n systematig yn y drefniadaeth drwyddi draw. Fe nododd yr adroddiad mai'r bwriad yw cyflwyno trefniadau rheoli newydd i alluogi gwell dulliau o rannu dysgu.[9]

## 3. Profiadau o ddysgu seiliedig ar waith

16. Clywodd y Pwyllgor farnau amrywiol ynglŷn ag effeithlonrwydd darpariaeth dysgu seiliedig ar waith ar gyfer pobl ifanc sy'n agored i niwed. Dywedodd nifer o sefydliadau wrthym, yn enwedig y rheini sy'n cynnig cymorth i'r grŵp hwn o bobl ifanc, fod y system bresennol yn aml yn methu yn achos y rheini sydd fwyaf agored i niwed.[10] Dywedodd darparwyr hyfforddiant wrthym fod y ddarpariaeth yn briodol ac yn addas ar y cyfan, ond cadarnhawyd bod yna bocedi o ddarpariaeth wael.[11]

17. Dywedodd Estyn wrthym mewn gohebiaeth ysgrifenedig,

[7] Adroddiad Blynyddol Estyn, 2008-09, Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2008-2009
[8] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: Dysgu Seiliedig ar Waith
[9] Adroddiad dilynol ar ddysgu seiliedig ar waith, AGR-LD7756, 22 Hydref 2009
[10] Cofnod y Trafodion [17] 28 Medi 2010, Y Pwyllgor Deisebau
[11] Cofnod y Trafodion [11-12] 12 Hydref 2010, Y Pwyllgor Deisebau

> "From our inspection work and knowledge of the sector the evidence shows that the majority of providers deliver at least satisfactory, if not, good quality work based learning in Wales."[12]

18. Fodd bynnag, gwnaethant ddweud hefyd eu bod yn dal i weld darpariaeth anfoddhaol yn achos lleiafswm o ddarparwyr.[13] Yn ôl amlinelliad y Gweinidog yn ei dystiolaeth lafar i ni, roedd o'r farn bod y ddarpariaeth dysgu seiliedig ar waith yng Nghymru'n foddhaol.[14]

19. Clywsom y bu gwelliannau sylweddol yn y ddarpariaeth dysgu seiliedig ar waith yn ystod blynyddoedd diweddar, a phriodolwyd hyn i ddull o weithredu mwy strategol Llywodraeth Cymru[15] ac i ymwneud Estyn.[16] Gwnaeth pob un o'r tystion gydnabod y gwelliannau hyn yn eglur.

20. Rydym o'r farn bod y ddarpariaeth dysgu seiliedig ar waith yn ddigonol ar y cyfan a'i bod, yn y rhan fwyaf o achosion, yn cyflawni canlyniadau da mewn amgylchiadau sy'n aml yn llawn her. Fodd bynnag, mae yna welliannau o hyd a allai helpu i sicrhau bod rhaglenni dysgu seiliedig ar waith o fewn cyrraedd i'r bobl ifanc hynny sydd fwyaf agored i niwed, a'u bod yn gallu gwneud cynnydd ynddynt yn llwyddiannus a mynd ymlaen i gyflogaeth gynaliadwy. Dyma'r cyd-destun yr ydym yn gwneud yr argymhellion a gynhwysir yn yr adroddiad hwn ynddo.

**Profiadau cadarnhaol o ddysgu seiliedig ar waith**

21. Roedd Rathbone Cymru a Hyfforddiant ACT yn eglur yn eu tystiolaeth lafar nad oeddent yn cydnabod yr awgrym bod nifer sylweddol o bobl ifanc yn methu oherwydd nad yw rhaglenni dysgu seiliedig ar waith yn darparu ar gyfer pobl ifanc sy'n agored i niwed.[17] Gwnaethant gydnabod, fodd bynnag, bod yna bocedi o ddarpariaeth nad oedd yn diwallu anghenion pobl ifanc orau neu'n cynnig cymorth ar lefelau digonol.[18]

---

[12] Papur y Pwyllgor Deisebau PET(3)-10-10 Papur 1: Deisebau newydd a'r wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol
[13] PET10: Tystiolaeth ysgrifenedig Estyn
[14] Cofnod y Trafodion [12] 2 Tachwedd 2010, Y Pwyllgor Deisebau
[15] Cofnod y Trafodion [13] 12 Hydref 2010, Y Pwyllgor Deisebau
[16] PET22: Ymateb ysgrifenedig Hyfforddiant Cyflogaeth Dinas a Sir Abertawe
[17] Cofnod y Trafodion [6-9], 12 Hydref 2010, Y Pwyllgor Deisebau
[18] ibid [11-12], 12 Hydref 2010, Y Pwyllgor Deisebau

22. Dywedodd y Gweinidog,

> "Within our range of schemes, there may be some people who are not benefiting as much as they might, but there are clearly good schemes for vulnerable people being run by reputable providers."[19]

23. Dywedodd ITEC Training Solutions yn eu cyflwyniad ysgrifenedig fod cofnodion y darparwyr gorau yn dangos eu bod wedi diwallu anghenion dysgwyr yn rheolaidd er bod y cyllid wedi dod i ben. Gwnaethant ddweud mai dyna yw graddau ymrwymiad ac ymroddiad y darparwyr sy'n cyflenwi darpariaeth o ansawdd ac sy'n galluogi mynediad pan fo'i angen.[20]

24. Cefnogwyd y farn hon mewn cyflwyniadau ysgrifenedig eraill y buom yn eu hystyried oddi wrth ddarparwyr hyfforddiant. Yn ôl disgrifiad Hyfforddiant Cyflogaeth Dinas a Sir Abertawe, roedd dysgu seiliedig ar waith yn rhaglen hynod a allai, o'i chyweirio yma ac acw, fod yn well fyth.[21]

25. Cytunodd Rhwydwaith Dysgu 14-19 Sir Benfro fod dysgu seiliedig ar waith yn diwallu anghenion pobl ifanc sy'n agored i niwed yn effeithiol gan ei fod yn gallu cynnig ffurf ar addysg sy'n canolbwyntio mwy ar y dysgwr.[22] Gwnaethant hefyd ddwyn sylw at y ffaith mai canlyniad yw eu llwyddiannau i weithio'n agos mewn partneriaeth ac i arddel agwedd gyfannol a thymor hir tuag at anghenion cymorth y dysgwr ac, ar yr un pryd, sicrhau bod y dysgwr yn cael cymorth sy'n bersonol iddo ef. Clywsom oddi wrth y mwyafrif o dystion fod cymorth personol effeithiol yn ffactor allweddol mewn dysgu seiliedig ar waith llwyddiannus.

26. Clywsom oddi wrth bob tyst y gall fod yn heriol gweithio gyda'r bobl sydd fwyaf agored i niwed a bod, yn aml, angen dulliau gwahanol ac arloesol o weithredu i ymgysylltu ac annog cyfranogiad llawn. Dywedodd tystion wrthym, gan gynnwys Gweithredu dros Blant, am bwysigrwydd cydnabod a dathlu pob cyflawniad.

---

[19] Cofnod y Trafodion [12] 2 Tachwedd 2010 Y Pwyllgor Deisebau
[20] PET13: ITEC Training Solutions Cyf
[21] PET22: Ymateb ysgrifenedig Hyfforddiant Cyflogaeth Dinas a Sir Abertawe
[22] PET18: Cyflwyniad ysgrifenedig Rhwydwaith Dysgu 14-19 Sir Benfro

"For some young people, getting through the day without being rude to someone is a major achievement and needs to be celebrated, and we fail to do this at our peril."[23]

27. Dygodd Fairbridge De Cymru sylw at yr angen am amser, amynedd, cefnogaeth un-i-un a dealltwriaeth y bydd yna agweddau cadarnhaol ac agweddau negyddol wrth ymgysylltu â'r bobl ifanc hyn[24]. Pwysleisiodd tystion hefyd fod gan y grŵp hwn lawer o botensial sydd heb ei ddihysbyddu, fel yr atgoffodd Gweithredu dros Blant ni yn eu tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor,

"… we regard it all as negative and that young people bring nothing to the table, whereas what they often bring… is an energy, a resilience and a capacity way beyond what their life experience should have bequeathed them. It should be incumbent upon us to recognise and build that aspiration and … to mentor them to feed that back to grow that."[25]

28. Mae yna fater ehangach rydym yn pryderu yn ei gylch, sef diffyg uchelgais ymhlith y garfan hon o bobl ifanc ac, yn fwy cyffredinol, ymhlith rhanddeiliaid sydd a wnelo â'r grŵp hwn. Gallai hyn olygu nad ydynt, o bosibl, yn ymgysylltu â chyfleoedd hyfforddi addas, neu nad ydynt yn gwybod am y cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Rydym yn deall bod hyn yn mynd ymhell y tu hwnt i gylch gwaith yr ymchwiliad, ond rydym yn pryderu y gallai olygu nad yw pobl ifanc yn ystyried bod rhaglenni dysgu seiliedig ar waith yn opsiwn iddynt.

29. Hoffem ddweud ar goedd ein bod yn cydnabod y gwelliannau sydd wedi'u gwneud i'r ddarpariaeth dysgu seiliedig ar waith. Rydym o'r farn bod mwyafrif y darparwyr yn cyflenwi cymorth a darpariaeth dda o safon uchel i ddysgwyr sy'n aml yn agored iawn i niwed. Fodd bynnag, mae yna feysydd y gellir gwella mwy arnynt.

**Profiadau negyddol o ddysgu seiliedig ar waith**

30. Roedd Gweithredu dros Blant a Barnardo's Cymru'n eglur yn eu tystiolaeth lafar ac ysgrifenedig y gall y ddarpariaeth bresennol fethu yn achos y rheini sydd fwyaf agored i niwed. Mae'r bobl ifanc hyn yn rhoi'r gorau i raglenni neu'n cyflawni cymwysterau ar lefel sylfaenol yn

---

[23] Cofnod y Trafodion [13] 28 Medi 2010, Y Pwyllgor Deisebau
[24] PET11: Tystiolaeth ysgrifenedig Fairbridge De Cymru
[25] Cofnod y Trafodion [56] 28 Medi 2010

unig oherwydd y rhwystrau lawer y maent yn eu hwynebu, yn ogystal â chymorth ariannol a bugeiliol annigonol.

31. Cefnogwyd y farn hon yn rhywfaint o'r dystiolaeth ysgrifenedig y buom yn ei hystyried, hyd yn oed gan yr ymatebwyr hynny a oedd o'r farn bod dysgu seiliedig ar waith ar y cyfan yn rhaglen effeithiol. Dywedodd Hyfforddiant Cyflogaeth Dinas a Sir Abertawe nad yw'r model presennol yn gweithio'n arbennig o dda i'r rheini sy'n wynebu rhwystrau lawer, ond roeddent o'r farn ei bod yn rhaglen effeithiol iawn yn fwy cyffredinol.[26]

32. Cadarnhaodd Hyfforddiant ACT fod yna rai achosion lle nad yw'r ddarpariaeth yn ddigonol,

> "Quite frankly, some of the provision is just not flexible enough, and learners have to fit into that provision as opposed to the provider having to fit the learning around the person, which would be good provision. Where you see poor provision, it is just like a sausage factory."[27]

33. Roedd hwn yn rheswm cyffredin a roddwyd am ddarpariaeth aneffeithiol. Clywsom nad oedd digon o alw yn y model corfforaethol am gymorth hyblyg a phersonol.[28] Pwysleisiodd darparwyr hyfforddiant megis Hyfforddiant Cyflogaeth Dinas a Sir Abertawe ei bod yn bwysig bod yn hyblyg er mwyn galluogi rhaglenni dysgu seiliedig ar waith i ddiwallu anghenion y rheini sydd fwyaf agored i niwed yn well. [29]

34. Rydym yn cytuno â Cymorth Cymru a nododd y byddai'n gost effeithiol cyflenwi cymorth mwy unigol a phersonol; er y byddai'n costio mwy i'w gyflenwi, byddai'n arwain at ganlyniadau gwell.[30]

35. Nododd Fairbridge De Cymru mai un o'r elfennau hanfodol sy'n golygu bod rhaglenni dysgu seiliedig ar waith yn methu yw methiant i asesu anghenion ac atgyfeirio'n ddigonol. Gwnaethant ddweud bod pobl ifanc yn aml yn cael eu gosod ar gyrsiau heb y paratoad neu'r sgiliau priodol, ac nad yw staff yn gallu darparu cymorth arbenigol iddynt. Maent yn nodi y gall hyn olygu ei bod yn anochel y bydd y bobl

---

[26] PET22: Ymateb ysgrifenedig Hyfforddiant Cyflogaeth Dinas a Sir Abertawe
[27] Cofnod y Trafodion [28] 12 Hydref 2010, Y Pwyllgor Deisebau
[28] PET5: Tystiolaeth ysgrifenedig Gyrfa Cymru Morgannwg Ganol a Phowys
[29] PET22: Tystiolaeth ysgrifenedig Hyfforddiant Cyflogaeth Dinas a Sir Abertawe
[30] PET7: Tystiolaeth ysgrifenedig Cymorth Cymru

ifanc yn methu.[31] Roedd Llamau'n cefnogi'r farn hon, gan nodi bod asesu effeithiol yn hanfodol i ddatblygu cynllun dysgu personol â chymorth, a fydd yn galluogi'r dysgwr i wneud cynnydd.[32]

36. Yn ôl Fairbridge De Cymru, mae methu â gosod dysgwyr gyda'r cyflogwr iawn yn ffactor, gan nodi nad oedd yna unrhyw lwybrau atchwelyd priodol ar gyfer unigolion sy'n wynebu anawsterau.

37. Rydym yn cydnabod bod yna lawer iawn o arfer da a chymorth effeithiol o fewn y system dysgu seiliedig ar waith, ond bod yna enghreifftiau hefyd lle mae'r system yn methu yn achos y rheini sydd fwyaf agored i niwed. Nid ydym o'r farn ei bod yn briodol derbyn y bydd hyd yn oed y systemau mwyaf effeithiol yn methu yn achos rhai pobl. Mae'n hanfodol gwneud gwelliannau er mwyn lleihau'r risg y bydd pobl ifanc sy'n agored i niwed yn methu â chwblhau eu hyfforddiant yn llwyddiannus.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod Gyrfa Cymru a darparwyr dysgu unigol yn ymgymryd ag asesiad digonol a chadarn o anghenion er mwyn sicrhau bod darpariaeth wedi'i chynllunio ar sail anghenion dysgwyr unigol**.

**Caffael sgiliau sylfaenol**

38. Mae'r rhaglen Adeiladu Sgiliau'n cynnwys nodi a mynd i'r afael ag unrhyw anghenion sgiliau sylfaenol posibl dysgwr.[33] Hefyd, clywsom oddi wrth y Gweinidog am waith sy'n ceisio mynd i'r afael â'r mater hwn yn gynharach yn y system addysg, gan gynnwys y rhaglen llythrennedd genedlaethol sy'n canolbwyntio ar blant rhwng 7 ac 11 oed. Dywedodd y Gweinidog wrthym ei fod o'r farn y dylid mynd i'r afael â'r materion hyn o fewn y system ysgolion.[34] Clywsom hefyd fod rhaglenni sgiliau sylfaenol ar gael i oedolion a theuluoedd.

39. Clywsom fod diffyg sgiliau llythrennedd a rhifedd, ynghyd â sgiliau meddalach eraill sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth lwyddiannus, yn broblem i ddysgwyr. Mae darparwyr rhaglenni dysgu seiliedig ar waith yn gyfrifol am sicrhau bod dysgwyr yn meddu ar y sgiliau sylfaenol hyn i'w galluogi i lwyddo yn eu lleoliadau. Roedd nifer o dystion o'r farn ei bod yn bwysig cael hyn yn iawn, gan mai dyma'r

[31] PET11: Tystiolaeth ysgrifenedig Fairbridge De Cymru
[32] PET15: Tystiolaeth ysgrifenedig Llamau Cyf
[33] Papur y Pwyllgor Deisebau, PET(3)-13-10 Papur 1, Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes
[34] Cofnod y Trafodion [14] 2 Tachwedd 2010, Y Pwyllgor Deisebau

cyfnod y bydd y dysgwr yn aml yn ymddieithrio. Clywsom fod methu yn ystod y cyfnod hwn yn gallu atgyfnerthu teimladau negyddol sydd eisoes wedi hen sefydlu ynglŷn â hunan werth a dieithrwch, ac mai dyma yw'r cyfle olaf yn aml i ymgysylltu.[35]

40. Mae yna rai dysgwyr nad ydynt wedi mynychu'r ysgol yn rheolaidd, ac mae angen cymorth sylweddol arnynt i ddatblygu eu sgiliau sylfaenol. Clywsom nad yw'r cymorth a roddir i ennill y sgiliau hyn bob amser yn cael ei roi yn y modd mwyaf addas i'r dysgwr, a gall fod mewn amgylcheddau amhriodol. Dywedodd G4S ei bod hi'n anodd deall y syniad o osod pobl ifanc o'r fath mewn amgylchedd y gwelwyd eisoes nad yw'n ffafriol iddynt ddysgu ynddo[36] a chefnogodd Gyrfa Cymru hyn trwy ddweud,

> "To find that they will initially spend several weeks, or possibly months in a training centre, focusing on essential skills (literacy, numeracy etc.) is often not what they had expected. Comments from young people suggest that insufficient consideration is given to different learning styles of individuals."[37]

41. Mae'r angen i addysgu sgiliau sylfaenol mewn modd sy'n bersonol ac sy'n ei gwneud hi'n hawdd i'w cymhwyso'n ymarferol yn bwysig. Bydd hefyd yn gwella ymgysylltiad dysgwyr ac yn helpu i'w cadw. Clywsom am enghreifftiau cadarnhaol oddi wrth Rathbone a oedd yn dangos sut maent yn gwneud sgiliau sylfaenol yn berthnasol i fywyd y dysgwr.[38]

42. Ochr yn ochr â'r enghreifftiau oddi wrth Rathbone a Hyfforddiant ACT, clywsom am brosiectau eraill â'r nod o ddatblygu sgiliau sylfaenol mewn modd perthnasol a hygyrch i bobl ifanc. Roedd hyn yn cynnwys gwaith gan Llamau, Fairbridge De Cymru a rhaglen Pontio i Gyflogaeth Merthyr Tudful.

43. Gwnaethom ystyried tystiolaeth ysgrifenedig a oedd yn disgrifio'r rhaglen Get Skilled Up yn y Rhyl, sydd wedi dangos cyfraddau cadw a chynnydd da. Rydym yn nodi y datblygwyd rhaglenni dysgu unigol yn y rhaglen hon, er mai cwricwlwm craidd generig oedd iddi.[39] Mae hyn yn

[35] PET 12: Tystiolaeth ysgrifenedig Gwasanaethau Gofal a Chyfiawnder G4S
[36] Ibid
[37] PET4: Tystiolaeth ysgrifenedig Gyrfa Cymru
[38] Cofnod y Trafodion [97] 12 Hydref 2010, Y Pwyllgor Deisebau
[39] PET9: Tystiolaeth ysgrifenedig yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau.

cefnogi'r dystiolaeth a glywsom oddi wrth dystion ynglŷn â sut mae dull unigol a phersonol o weithredu'n debygol o arwain at ganlyniadau cynyddol a gwell.

44. Galwodd rhai tystion, gan gynnwys Fairbridge De Cymru, System Gofal a Chyfiawnder G4S a Hyfforddiant Cyflogaeth Dinas a Sir Abertawe am gyflwyno rhyw ffurf ar hyfforddiant sylfaen/cyn Adeiladu Sgiliau. Gallai hyn fynd i'r afael â rhai o'r anghenion sgiliau craidd cyn i'r bobl ifanc ymuno â rhaglen ddysgu fwy ffurfiol. Ymhlith yr enghreifftiau o'r hyn y gellid rhoi sylw iddo mae: ymddygiad priodol; y drefn feunyddiol a phrydlondeb. Byddai hyn yn helpu i fynd i'r afael â risgiau sy'n gysylltiedig â dysgwyr yn ymddieithrio o ddysgu seiliedig ar waith oherwydd materion yn ymwneud ag ymddygiad, neu anallu i fodloni gofynion craidd y cwrs. Byddai'n helpu i baratoi'r dysgwyr er mwyn iddynt fod â mwy o ffocws, a bod yn llai aflonyddol ac yn barod ar gyfer lleoliad.[40]

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n cefnogi datblygu fframwaith arfer gorau ar gyfer caffael sgiliau sylfaenol. Dylai'r fframwaith hwn annog darparwyr i gyflenwi rhaglenni sgiliau sylfaenol yn y modd mwyaf addas a phriodol i ddysgwyr.**

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n ymchwilio i ddichonoldeb cyflwyno rhaglen o gyrsiau paratoadol i alluogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau mwyaf sylfaenol cyn ymuno â rhaglenni dysgu seiliedig ar waith ffurfiol. Dylid ystyried a ellid rhoi rhaglenni sydd eisoes wedi'u sefydlu ar waith yn effeithiol ledled Cymru.**

### Y lleoliadau hyfforddiant priodol sydd ar gael

45. Clywsom wahanol farnau ynglŷn â ph'un a oedd digon o leoliadau ar gael. Yn ôl y deisebwyr, roedd hyn yn broblem allweddol, a nodwyd bod y lleoliadau gorau'n aml yn mynd i'r bobl ifanc hynny sy'n hawdd i'w lleoli.[41] Nodwyd bod hyn yn bryder hefyd mewn nifer o gyflwyniadau ysgrifenedig. Fodd bynnag, dywedodd darparwyr hyfforddiant wrthym fod ganddynt leoliadau dros ben. Gwnaethant hefyd ddweud wrthym fod ganddynt ystod eang o sectorau ar gael yn

[40] PET 12: Tystiolaeth ysgrifenedig Gwasanaethau Gofal a Chyfiawnder G4S
[41] Cofnod y Trafodion [10] 28 Medi 2010, Y Pwyllgor Deisebau

gyffredinol – gan gynnwys tacsidermi – er ei bod yn bosibl nad yw'r ystod o sectorau ar gael ym mhobman.[42]

46. Clywsom fod yna ddigon o leoedd gyda darparwyr hyfforddiant, ond ddim digon o leoliadau. O'r herwydd, mae pobl ifanc yn treulio llawer o amser yn y ganolfan hyfforddi, ac roedd hyn yn bryder allweddol i'r deisebwyr. Cadarnhaodd Gwasanaeth Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot fod hyn yn broblem yn eu cyflwyniad ysgrifenedig, gan nodi bod y lleoliadau gwaith sy'n addas ar gyfer dewis gyrfa dysgwr yn gyfyngedig, er bod yna ddigon o raglenni hyfforddi.[43]

47. Clywsom bryderon nad oes ystod eang o sectorau ar gael i ddysgwyr a'u bod, o'r herwydd, yn dewis lleoliadau amhriodol, neu'n rhoi'r gorau iddynt. Dywedodd y Ganolfan Byd Gwaith wrthym.

> "There is not a huge range of sectoral routes across the youth programme, from what I have observed. There is quite a focus on things like construction, administration and retail, so the placements are probably not very striking in their variety."[44]

Rydym yn cytuno bod hyn yn faes pryder a'i fod yn cyfyngu ar opsiynau pobl ifanc.

48. Rydym yn pryderu'n enwedig bod hyn yn fwy enbyd i'r rheini sy'n byw mewn ardaloedd sydd ag opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus gwael. Cadarnhaodd Gyrfa Cymru y farn hon.[45]

49. Dywedodd darparwyr hyfforddiant fel Rathbone wrthym nad ydynt bob amser yn gallu sicrhau lleoliadau gyda'r cwmnïau sydd fwyaf deniadol i bobl ifanc,

> "…we operate a lot in the Valleys and over in west Wales, and perhaps slightly reflective of the environment is the fact that we have a lot of placements that are reflective of the SME base, and we struggle to get many of the top 300 FTSE companies on board, although they are attractive to the young people because of the brand-name[…] You get young people who want to go into hairdressing, and they want to go to Toni&Guy rather

[42] Cofnod y Trafodion [19-21], 12 Hydref 2010, Y Pwyllgor Deisebau
[43] PET17: Tystiolaeth ysgrifenedig Gwasanaeth Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot
[44] Cofnod y Trafodion [114] 2 Tachwedd 2010 Y Pwyllgor Deisebau
[45] PET4: Tystiolaeth ysgrifenedig Gyrfa Cymru

than to Snippets up the road, but that is where the placement is."[46]

50. Clywsom fod yna nifer o ffactorau sy'n gallu effeithio ar nifer y lleoliadau sydd ar gael. Dygodd Estyn sylw at y ffaith fod y rhaglen gwarant i bobl ifanc[47] yn dechrau rhoi nifer cyfyngedig y lleoedd sydd ar gael dan bwysau. Mae darparwyr sy'n cyflenwi'r rhaglen hon yn ymuno'n effeithiol â darparwyr rhaglenni Adeiladu Sgiliau wrth geisio sicrhau lleoliadau sy'n dod o'r un gronfa o gyflogwyr.[48]

51. Nodwyd bod y dirywiad economaidd hefyd yn ffactor sy'n gwaethygu pethau gan ei fod yn cwtogi ar nifer y lleoliadau sydd ar gael. Dygodd Rhwydwaith 14-19 Sir Ddinbych at y ffaith bod cwtogi ar staff yn y sector cyhoeddus yn cael effaith gan eu bod wedi bod yn ffynhonnell dda o gyfleoedd lleoliadau yn y gorffennol.[49]

52. Gall effaith bod â digon o gyrsiau hyfforddi ond ddim digon o leoliadau gwaith olygu bod dysgwyr yn treulio llawer o amser yn y ganolfan hyfforddi, yn cyflawni fawr o ddim. Gall hyn arwain at ymddygiad aflonyddol, at leihau cymhelliant ac, yn y pen draw, at ddysgwyr yn rhoi'r gorau i hyfforddiant neu'n cael eu gorfodi i'w adael oherwydd problemau ag ymddygiad. Gall hefyd arwain at ddysgwyr yn dod i arddel syniad negyddol ynglŷn â sut beth yw gwaith.[50]

53. Mae Gyrfa Cymru Morgannwg Ganol a Phowys wedi awgrymu y dylai cyfleoedd fod ar gael i'r rheini sy'n aros am leoliadau fanteisio ar wasanaethau eraill. Byddai hyn yn galluogi'r dysgwr i ddefnyddio'i amser yn well, yn ei gwneud hi'n llai tebygol y byddai'n rhoi'r gorau i raglen ac yn rhyddhau staff i dreulio amser ar waith cymorth mwy personol ac unigol. Awgrymwyd y gallai pobl ifanc fanteisio ar wasanaethau chwaraeon neu wasanaethau diwylliannol yn ystod yr adeg hon.[51]

54. Nodwyd bod dull pob darparwr hyfforddiant o weithredu wrth sicrhau lleoliadau'n wahanol, ac rydym o'r farn bod hyn yn faes lle dylid rhannu arfer da a'i ledaenu trwy rwydweithiau cydweithredol.

---

[46] Cofnod y Trafodion [22] 12 Hydref 2010 Y Pwyllgor Deisebau
[47] Mae hyn yn gwarantu hyfforddiant neu leoliad gwaith ar gyfer yr holl bobl ifanc rhwng 18 a 24 oed.
[48] PET10: Tystiolaeth ysgrifenedig Estyn
[49] PET8: Tystiolaeth ysgrifenedig Rhwydwaith 14-19 Sir Ddinbych
[50] P-03-270 Gwybodaeth ategol y deisebwyr
[51] PET5: Tystiolaeth ysgrifenedig Gyrfa Cymru Morgannwg Ganol a Phowys

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod arfer gorau rhwng darparwyr wrth sicrhau lleoliadau'n cael ei ledaenu a'i rannu â'r holl ddarparwyr dan gontract. Dylid cwblhau hyn mewn pryd ar gyfer dechrau'r contractau newydd yn 2011.**

55. Galwodd nifer o dystion am ffyrdd arloesol a chreadigol o annog cyflogwyr i gynnig lleoliadau. Dygodd Cymorth Cymru sylw at y ffaith bod gan gymdeithasau tai a darparwyr cymorth bolisïau'n aml i gefnogi unigolion difreintiedig i ddatblygu sgiliau, ac y gellid ymchwilio'n fanylach i hyn er mwyn ehangu nifer ac amrywiaeth y lleoliadau.[52] Rydym o'r farn bod y syniad hwn yn arbennig o ddiddorol ac y gallai fod o fudd edrych ar ddull Cymru gyfan o weithredu wrth gynnig lleoliadau yn y sector gwirfoddol/y trydydd sector.

56. Galwodd Hyfforddiant Cyflogaeth Dinas a Sir Abertawe ar y Llywodraeth i wneud fwy i gael mwy o gyflogwyr i ymgysylltu â dysgu seiliedig ar waith, ac i arwain trwy esiampl. Gwnaethant awgrymu y gellid gwneud hyn trwy estyn y gofyniad statudol fel ei bod yn ofynnol i bob cyflogwr sydd â deg neu fwy o weithwyr ddarparu cyfleoedd prentisiaeth.[53] Er ein bod o'r farn bod y syniad hwn yn ddiddorol, nid ydym yn argymell y dylid ei roi ar waith.

57. Rydym yn ymwybodol o nifer o ffyrdd gwahanol y mae darparwyr hyfforddiant a Llywodraeth Cymru'n mynd i'r afael â'r mater hwn, ac rydym yn croesawu hyn. Clywsom oddi wrth gwmni Rathbone ei fod yn datblygu partneriaethau â busnesau yn y gymuned i annog ei aelodau i fanteisio ar leoliadau. Rydym o'r farn bod angen bwrw ymlaen â mwy o waith fel hyn er mwyn cynyddu ac ehangu nifer y lleoliadau a'r sectorau y ceir lleoliadau ynddynt.

58. Rydym hefyd yn croesawu gwaith Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu rhaglen profiad gwaith gwirfoddol newydd a rhaglen marchnad lafur drosiannol.[54] Rydym yn galw ar y Llywodraeth i ystyried yr argymhellion yn yr adroddiad hwn i helpu i lunio'r cynigion hyn.

59. Clywsom oddi wrth y Gweinidog fod Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau wrthi ar hyn o bryd yn ystyried sut i wella ymgysylltiad cyflogwyr, ac y bydd Llywodraeth Cymru'n edrych ar yr

[52] PET7: Tystiolaeth ysgrifenedig Cymorth Cymru
[53] PET22: Tystiolaeth ysgrifenedig Hyfforddiant Cyflogaeth Dinas a Sir Abertawe
[54] Papur y Pwyllgor Deisebau PET(3)-13-10 Papur 1: Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes

argymhellion i weld a oes unrhyw ffyrdd eraill i fwrw ymlaen â hyn.[55] Rydym o'r farn ei bod yn hanfodol bod Llywodraeth Cymru'n arwain yn strategol yn hyn o beth, ac yn sicrhau bod yr ystod lawnaf o opsiynau ar gael i'r holl ddysgwyr, waeth beth fo'u lleoliad daearyddol neu eu hamgylchiadau personol anodd.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n arddel rôl fwy strategol wrth hybu buddion dysgu seiliedig ar waith i helpu i gael mwy o gyflogwyr i gymryd rhan. Dylai'r gwaith hwn ganolbwyntio ar annog cyflogwyr i dderbyn yr holl ddysgwyr, gan gynnwys y rheini sydd fwyaf agored i niwed, a sicrhau bod cyflogwyr yn y meysydd sector hynny lle mae yna fwy o alw nag sydd o leoedd yn cymryd rhan. Dylid canolbwyntio'n benodol hefyd ar ardaloedd gwledig ac ardaloedd eraill sydd â chysylltiadau trafnidiaeth gwael, lle ceir anawsterau ychwanegol wrth sicrhau lleoliadau.**

**Fel rhan o arddel rôl fwy strategol, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n ystyried a fyddai rhaglen dysgu seiliedig ar waith benodol sy'n canolbwyntio ar y sector gwirfoddol yn helpu i wella cyfleoedd a chyfraddau cynnydd ar gyfer y rheini sydd fwyaf agored i niwed.**

**Rydym hefyd yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n ystyried yr argymhellion hynny a ddaw i'r fei o adolygiad y DU o ymgysylltiad cyflogwyr a fydd yn helpu i gynyddu lleoliadau.**

**Cyfleoedd ar gyfer cynnydd**

60. Un o nodau allweddol y ddeiseb oedd gwella cyfraddau cynnydd ar gyfer pobl ifanc sy'n agored i niwed a sicrhau eu bod yn cyflawni NVQ Lefel 2 o leiaf. Clywsom amrywiaeth o safbwyntiau ar gyfleoedd a llwyddiant dysgu seiliedig ar waith o ran cynnydd pobl ifanc ac o ran eu helpu i sicrhau cyflogaeth gynaliadwy.

61. Cynnydd yw'r canlyniad allweddol o'r rhaglen Adeiladu Sgiliau ac mae'n rhaid i ddarparwyr gyrraedd targedau cynnydd penodol fel rhan o'u contractau. Clywsom oddi wrth Hyfforddiant ACT fod tua 85% o'u dysgwyr yn symud ymlaen i swyddi. Mesurir hyn chwe mis ar ôl iddynt

[55] Cofnod y Trafodion [17] 2 Tachwedd 2010, Y Pwyllgor Deisebau

gwblhau hyfforddiant, felly gellir ystyried hyn yn ganlyniad cynaliadwy. Mae'n rhaid monitro hyn fel rhan o'u contract.[56]

62. Fodd bynnag, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth anecdotaidd oddi wrth sefydliadau cymorth megis Gweithredu dros Blant nad yw cyfraddau cynnydd mor gadarnhaol ar gyfer pobl ifanc sy'n agored i niwed.[57] Cefnogwyd y farn hon mewn tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan amrywiaeth o sefydliadau.[58] Yn ôl Estyn hefyd, mae yna rai dysgwyr nad ydynt yn gwneud cynnydd, sydd brin yn mynd y tu hwnt i NVQ lefel 1 neu sy'n cymryd gormod o amser i gyflawni eu cymwysterau.[59]

63. Mae yna gysylltiad agos rhwng cyfleoedd cynnydd a'r lleoliadau a'r gyflogaeth sydd ar gael. Ar ben hyn, mae gweithio mewn partneriaeth a threfniadau pontio rhwng darparwyr hefyd yn allweddol. Roedd y Ganolfan Byd Gwaith yn cydnabod hyn, gan ddweud wrthym eu bod yn edrych ar sut gallant wella trefniadau pontio rhwng Gyrfa Cymru a'r Ganolfan Byd Gwaith.[60] Cadarnhaodd darparwyr hyfforddiant fod trefniadau pontio effeithiol yn bwysig, yn enwedig wrth reoli pontio rhwng ysgol a hyfforddiant, a bod gan Gyrfa Cymru rôl i'w chwarae wrth gryfhau'r trefniadau hyn.[61]

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n llunio protocolau i sicrhau bod trefniadau pontio rhwng darparwyr yn cael eu gwella, fel nad oes unrhyw rwystrau ychwanegol rhag gwneud cynnydd.**

64. Dygodd Estyn sylw at y ffaith bod gwahanol ddarparwyr yn gallu cynnig cymwysterau ar wahanol lefelau, gan ddibynnu ar eu cyllid, sy'n gallu effeithio ar gyfleoedd y dysgwr i wneud cynnydd,

> "…some of the better providers who are DCELLS funded to deliver NVQ2 and NVQ3 do succeed in progressing Skillbuild learners through to level 2 and 3 or employment."[62]

65. Yn y cyflwyniadau ysgrifenedig, gwelsom nifer o enghreifftiau o bobl ifanc nad oeddent wedi gwneud cynnydd yn y maes o'u dewis

---

[56] Cofnod y Trafodion [24-26], 12 Hydref 2010, Y Pwyllgor Deisebau
[57] Cofnod y Trafodion [11], 28 Medi 2010, Y Pwyllgor Deisebau
[58] Y sefydliadau a ddygodd sylw at ddiffyg cyfleoedd cynnydd oedd Hyfforddiant Cyflogaeth Abertawe, Rhwydwaith 14-19 Sir Ddinbych, Gwasanaethau Oedolion/Ieuenctid Merthyr Tudful, Fairbridge De Cymru a Llamau.
[59] PET 10: Tystiolaeth ysgrifenedig Estyn
[60] Cofnod y Trafodion [146], 2 Tachwedd 2010, Y Pwyllgor Deisebau
[61] Cofnod y Trafodion [56] 12 Hydref 2010, Y Pwyllgor Deisebau
[62] PET 10: Tystiolaeth ysgrifenedig Estyn

oherwydd diffyg NVQ neu ddarparwr hyfforddiant i gwmpasu'r sector roeddent am wneud cynnydd ynddo.[63] Mae hyn yn gwrth-ddweud rhywfaint o'r dystiolaeth a glywsom o ran y lleoedd hyfforddi sydd ar gael, pan ddywedwyd wrthym fod yna ddigon o leoedd hyfforddi ond ddim digon o leoliadau.

## 4. Cymorth personol i bobl ifanc sy'n agored i niwed

66. Roedd yr holl dystion yn cytuno bod cymorth personol a bugeiliol effeithiol yn allweddol i unigolyn gwblhau ei hyfforddiant yn llwyddiannus. Bydd sicrhau bod gan ddysgwr gymorth personol da'n gwella cyfraddau cadw a chynnydd. Clywsom amrywiaeth o farnau ynglŷn â pha mor effeithiol yw lefelau presennol y cymorth.

67. Mae lefel y cymorth sydd ei hangen ar y rheini sydd fwyaf agored i niwed yn wahanol iawn i lefel y mwyafrif o ddysgwyr, ac mae'n rhaid cydnabod ac ystyried y gwahaniaethau hyn. Rydym o'r farn ei bod yn hanfodol nodi'r anghenion hyn ar ddechrau'r cwrs. Rydym yn croesawu sylw'r Gweinidog, sef, 'When people enter work based learning; we expect their basic skills to be properly assessed. Providers do that. Therefore, programmes should be developed that are tailored to the needs of individual learners'.[64]

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod yr holl ddarparwyr yn bodloni eu gofynion i nodi unrhyw anghenion dysgwr am gymorth ychwanegol ar ddechrau'r cwrs.**

68. Wrth ddarparu cymorth personol, mae'n hanfodol bod pawb sy'n gweithio gyda phobl ifanc yn darparu gwybodaeth fanwl gywir a'u bod yn gallu eu cyfeirio at asiantaethau priodol lle bo angen. Gyrfa Cymru yw'r brif ffynhonnell wybodaeth ar gyfer pobl rhwng 16 a 17 oed, ond mae gan y Ganolfan Byd Gwaith gynghorwyr arbenigol ar gyfer pobl rhwng 16 a 17 oed y mae angen budd-daliadau arnynt. Clywsom mai cynghorwyr mwyaf profiadol y Ganolfan Byd Gwaith yw'r rhain yn aml, oherwydd y cymhlethdodau a'r anawsterau y mae'r grŵp hwn yn eu

[63] Tystiolaeth ysgrifenedig PET 4: Gyrfa Cymru, PET 5: Gyrfa Cymru Morgannwg Ganol a Phowys
[64] Cofnod y Trafodion [14] 2 Tachwedd 2010, Y Pwyllgor Deisebau

hwynebu.[65] Fodd bynnag, rydym o'r farn bod yna rywfaint o ddryswch ynglŷn â'r gwahanol rolau a swyddogaethau.

69. Mae'n achos pryder i ni glywed bod yna anghysonder yn y cymorth y mae gwahanol wasanaethau Gyrfa Cymru'n eu cynnig.[66] Dylai pobl ifanc dderbyn cymorth ar yr un lefel oddi wrth Gyrfa Cymru, waeth lle maent yn byw. Dywedodd y Gweinidog y dylai'r strwythur unedol arfaethedig ar gyfer Gyrfa Cymru wneud lefel ac ansawdd y cymorth ledled Cymru'n fwy cyson.

70. Pwysleisiodd pob tyst ei bod yn bwysig cydweithio'n effeithiol ag asiantaethau, ac rydym yn rhoi mwy o sylw manwl i'r mater hwn ym mhennod chwech. Fodd bynnag, mae'n elfen allweddol o sicrhau bod yna ddigon o gymorth bugeiliol i ddysgwr. Yn ôl nifer o dystion, gan gynnwys Gyrfa Cymru, gall problemau godi wrth rannu gwybodaeth rhwng asiantaethau, gan arwain at anawsterau wrth sicrhau bod modd rhoi cymorth personol ac unigol ar waith i gefnogi'r dysgwr. Gwnaethant roi enghreifftiau penodol o sut mae hyn wedi arwain at broblemau'n codi â dysgwyr penodol.[67] Dywedodd Gwasanaethau Oedolion ac Ieuenctid Merthyr Tudful mewn cyflwyniad ar y cyd, 'There is a need to standardise and enforce information sharing protocols across providers to put the needs of the learner above individual organisations'.[68] Cydnabu'r Adran Gwaith a Phensiynau yn eu tystiolaeth lafar fod hyn yn rhwystr allweddol rhag cydweithio effeithiol.[69]

71. Rydym yn croesawu'r gwaith y mae'r Adran Gwaith a Phensiynau'n ei wneud ar lefel genedlaethol i nodi arfer da a phrotocolau wrth rannu gwybodaeth. Rydym hefyd yn croesawu'r ffaith y bydd hyn yn cael sylw yn y cynlluniau peilot cyfateb swyddi gwag y mae'r Ganolfan Byd Gwaith ar fin eu rhoi ar waith yng Nghymru.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n adeiladu ar waith yr Adran Gwaith a Phensiynau i sicrhau nad yw diffyg rhannu gwybodaeth yn rhwystr rhag cymorth personol effeithiol. Fel rhan o hyn, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr holl asiantaethau'n**

[65] Cofnod y Trafodion [152] 2 Tachwedd 2010, Y Pwyllgor Deisebau
[66] Cofnod y Trafodion [31] 12 Hydref 2010, Y Pwyllgor Deisebau
[67] PET4: Tystiolaeth ysgrifenedig Gyrfa Cymru
[68] PET16: Ymateb ysgrifenedig Gwasanaethau Oedolion/Gwasanaethau Ieuenctid Integredig Merthyr Tudful
[69] Cofnod y Trafodion [165-167], 2 Tachwedd 2010, Y Pwyllgor Deisebau

**ymwybodol o wahanol swyddogaethau a chyfrifoldebau ei gilydd wrth ddarparu cymorth i bobl ifanc sy'n agored i niwed.**

72. Un thema a glywsom drosodd a thro oedd effeithiolrwydd mentora wrth gefnogi dysgwyr trwy eu hyfforddiant. Dywedodd Gweithredu dros Blant wrthym fod y rheini sy'n gadael gofal yn gwneud yn well yn hyn o beth, oherwydd bod ganddynt gynghorydd personol sy'n aml yn arddel rôl fentora.[70] Pwysleisiodd Llamau hefyd yr angen am drefniadau mentora oherwydd,

> "Due to the nature of their experiences it is extremely likely that this cohort will have occasional crisis, which could negatively affect the sustainability of their placement, and traditionally this has been the point at which many placements fail. However, with support from specialist mentors the young people will be supported to overcome their personal crises, increasing the likelihood that their lives will remain stable and that they will be able to continue in their work placement, improve their chances of obtaining employment and become more financially independent.We strongly feel that effective mentoring for the learner and the employer is a key element of effective work based learning"[71]

73. Rydym yn teimlo'n gryf bod mentora effeithiol i'r dysgwr a'r cyflogwr yn hanfodol i sicrhau bod dysgu seiliedig ar waith yn digwydd mewn modd effeithiol.

74. Rydym yn croesawu tystiolaeth y Gweinidog lle siaradodd am fwriad i gyflwyno swyddogaeth anogwr dysgu i'r broses dendro ar gyfer y contractau dysgu seiliedig ar waith newydd.[72] Fodd bynnag, byddem wedi croesawu mwy o wybodaeth am sut bydd hyn yn arwain at welliannau i gymorth personol i bobl ifanc sy'n agored i niwed.

75. Ym mhennod chwech, rydym yn edrych yn fanylach ar fonitro a mesur cymorth personol.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n ymchwilio i ddichonoldeb darparu cynghorydd personol i bobl ifanc sy'n byw'n annibynnol ond nad ydynt yn gadael gofal.**

[70] Cofnod y Trafodion [58] 28 Medi 2010, Y Pwyllgor Deisebau
[71] PET15: Tystiolaeth ysgrifenedig Llamau Cyf
[72] Cofnod y Trafodion [70] 2 Tachwedd 2010, Y Pwyllgor Deisebau

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod rôl yr anogwr dysgu'n cael ei diffinio'n ddigon eglur i sicrhau y daw cymorth personol yn fwy cyson ac effeithiol i'r rheini sydd fwyaf agored i niwed. Dylai'r rôl hon sicrhau bod yna gynllun mentora effeithiol ar gyfer pob dysgwr.**

### Cronfa Cymorth Dysgu Ychwanegol

76. Mae cronfa cymorth dysgu ychwanegol ar gael i ddarparwyr hyfforddiant oddi wrth Lywodraeth Cymru, i'w helpu i ddarparu cymorth i'r bobl ifanc hynny sydd â'r anghenion mwyaf. Mae darparwyr hyfforddiant yn cyrchu hon trwy Gyrfa Cymru. Clywsom oddi wrth rai tystion fod darparwyr weithiau'n ei chael hi'n anodd cyrchu'r gronfa. Er ei bod wedi dod yn haws cyrchu'r cynllun, ar gyfer yr achosion hynny lle roedd gan y dysgwr 'ddatganiad' yn yr ysgol y mae hyn yn wir yn bennaf. Yn ôl Hyfforddiant ACT, nid yw ceisiadau'n cael eu cefnogi neu maent yn cael eu gwrthod os nad oes gan y dysgwr ddatganiad, ac maent yn galw am ymchwilio i hyn a'i gywiro. Mae hyn yn creu rhwystr ychwanegol ar gyfer pobl sydd eisoes yn agored i niwed, gan na chawsant ddatganiad yn yr ysgol yn aml, a'u bod felly dan anfantais am yr eildro.[73]

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n adolygu sut mae darparwyr yn cyrchu'r gronfa cymorth dysgu ychwanegol, ac yn cael gwared â'r rhwystrau sy'n ei gwneud hi'n fwy anodd i ddarparwyr ei chyrchu ar gyfer pobl ifanc nad oedd ganddynt 'ddatganiad' yn yr ysgol.**

### Cymorth i gyflogwyr

77. Dygwyd sylw mewn cyflwyniadau ysgrifenedig at bwysigrwydd rhoi cymorth i gyflogwyr wrth gynnal lleoliadau. Dywedodd Canolfan Galw i Mewn Ieuenctid Senghennydd mai prin yw'r gweithleoedd sy'n gallu ymdopi â'r cymorth ychwanegol sydd ei angen ar gyfer person ifanc sy'n agored i niwed. Pwysleisiodd Hyfforddiant Cyflogaeth Dinas a Sir Abertawe hefyd fod llwyddiant rhaglenni dysgu seiliedig ar waith yn dibynnu'n fawr ar ymgysylltiad cyflogwyr cefnogol.

78. Clywsom oddi wrth Barnado's Cymru am sut gall darparu cymorth i gyflogwyr weithio'n effeithiol, gan gyfeirio at eu prosiect 'Barnado's works'. Mae hwn yn cynnig mentoriaid i'r cyflogwr ac i'r cyflogai.

---

[73] Papur y Pwyllgor Deisebau: PET (3)12-10 Papur 1 Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru - Hyfforddiant ACT

Hefyd, mae Barnado's yn ariannu hanner cyflog y cyflogai am y 12 wythnos cyntaf. Eu profiad nhw yw bod

> "We have found that it is easier once the young person can engage fully with the employer, because the employer understands the young person in the round, rather than merely someone who has had awful life experiences so far."[74]

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n nodi ffyrdd y gellir cefnogi cyflogwyr yn agosach ac yn eu rhoi ar waith i helpu i gynnal lleoliadau ar gyfer pobl ifanc sy'n agored i niwed.**

## 5. Cymorth ariannol i bobl ifanc a ariennir yn annibynnol

79. Roedd Gweithredu dros Blant yn eglur iawn yn eu deiseb ynglŷn â'r caledi ariannol difrifol y gall pobl ifanc sy'n agored i niwed ei wynebu tra'u bod yn dilyn rhaglen dysgu seiliedig ar waith. Gwnaed hyn yn hynod eglur i ni mewn tystiolaeth lafar rymus oddi wrth ddysgwyr ifanc.[75] Mae'n amlwg i ni y gellid gwneud gwelliannau i helpu i ysgogi a chefnogi'r rheini sydd fwyaf agored i niwed ar raglenni dysgu seiliedig ar waith.

80. Rydym o'r farn nad oes digon o gymorth ariannol i fwyafrif helaeth y bobl sydd ar raglenni dysgu seiliedig ar waith. Mae ein hystyriaeth o'r mater hwn, a'n hargymhellion, yn ymwneud yn unig â'r rheini sydd fwyaf agored i niwed ac yn byw'n annibynnol.

81. Rydym yn pryderu y gall lefel y cymorth ariannol ysgogi pobl ifanc sy'n agored i niwed i beidio â dilyn rhaglen dysgu seiliedig ar waith. Rydym yn sylweddoli y daw buddion tymor hir yn sgil dilyn hyfforddiant, ond i rai pobl ifanc, mae'n bosibl na allant aberthu yn y tymor byr i fod ar eu hennill yn y tymor hir. Rydym o'r farn y dylid mynd i'r afael â hyn, a bod yna ffyrdd y gellir gwneud hyn. Rydym hefyd o'r farn y gall buddsoddi ar yr adeg hon fod yn gost-effeithiol gan y gallai, o bosibl, ei gwneud yn llai tebygol y bydd angen i'r bobl hyn gael cymorth y wladwriaeth yn ddiweddarach yn eu bywyd.

---

[74] Cofnod y Trafodion [47-48], 28 Medi 2010, Y Pwyllgor Deisebau
[75] Cofnod y Trafodion [91-106], 12 Mai 2010, Y Pwyllgor Deisebau

**Gwahaniaethau rhwng incwm myfyrwyr mewn Addysg Bellach a'r rheini ar raglenni dysgu seiliedig ar waith.**

82. Clywsom am y gwahaniaeth rhwng sefyllfa ariannol y rheini sy'n dilyn rhaglen dysgu seiliedig ar waith a sefyllfa ariannol y rheini sy'n mynd i goleg addysg bellach amser llawn. Mae pobl ifanc sydd ar raglen dysgu seiliedig ar waith ac sy'n ddigartref neu'n byw'n annibynnol yn derbyn £51.85 yr wythnos, ond mae'r un person ifanc sydd ar gwrs AB amser llawn yn derbyn £30 ychwanegol yr wythnos (Lwfans Cynhaliaeth Addysg), sy'n golygu bod ganddynt incwm wythnosol o £81.85.[76] Clywsom dystiolaeth oddi wrth bobl ifanc a oedd yn awgrymu bod hyn yn wahaniaeth sylweddol.[77] Rydym yn gwybod nad yw'r gwahaniaeth hwn bob amser yn broblem i'r rheini sy'n byw adref, ond gall fod yn wahaniaeth mawr i'r rheini sydd fwyaf agored i niwed ac sy'n byw'n annibynnol. Fel y clywsom oddi wrth un person ifanc, gallai'r arian ychwanegol hwn fod wedi'i alluogi i gael gwres yn ystod y gaeaf.[78] Rydym o'r farn bod y gwahaniaeth hwn yn annheg, ac y dylid mynd i'r afael ag ef ar gyfer y rheini sy'n byw'n annibynnol ac sydd ar raglenni dysgu seiliedig ar waith.

83. Eglurodd y Ganolfan Byd Gwaith y gwahaniaeth technegol hwn rhwng y rheini mewn addysg bellach a'r rheini ar raglenni dysgu seiliedig ar waith,

> "The training allowance that is available for young people on the Skillbuild programme is a subsistence allowance, and it is designed to keep young people who would otherwise be claiming the jobseekers allowance. It enables them to take up training and releases them from actively having to seek work. So, it is a like-for-like replacement. The difficulty is that the education maintenance allowance is not a subsistence allowance. It is disregarded for benefit purposes, because it is an incentive to take up specific courses of further education. As it is not intended to be subsistence, you can claim the education maintenance allowance alongside a subsistence benefit. So, the case study quoted in the petition is factually

[76] Papur y Pwyllgor Deisebau PET(3) 13-10: Papur 1 Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes
[77] Cofnod y Trafodion [85-99], 12 Mai 2010, Y Pwyllgor Deisebau
[78] Cofnod y Trafodion [85-107], 12 Mai 2010, Y Pwyllgor Deisebau

correct: a young person choosing further education over something more vocational will be better off."[79]

84. Dywedodd Gweithredu dros Blant a Barnardo's Cymru, pe bai'n rhaid iddynt flaenoriaethu gwelliannau i'r system, eu prif nod fyddai gweld pobl ifanc sy'n byw'n annibynnol ac sydd ar raglenni dysgu seiliedig ar waith yn derbyn taliad Lwfans Cynhaliaeth Addysg o £30 yr wythnos, ar ben y lwfans hyfforddi. Byddai hyn yn sicrhau bod darpariaeth dysgu seiliedig ar waith yn gyson â darpariaeth Addysg Bellach i'r rheini sy'n byw'n annibynnol. Rydym yn cefnogi hyn ac yn galw am roi blaenoriaeth i fynd i'r afael â'r gwahaniaeth hwn.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n cyflwyno cymorth ychwanegol ar gyfer y rheini sy'n byw'n annibynnol ac sydd ar raglenni dysgu seiliedig ar waith o ddechrau'r contractau dysgu seiliedig ar waith newydd yn 2011. Dylid cyflwyno newidiadau i sicrhau bod eu hincwm wythnosol yn gyson ag incwm y rheini sy'n byw'n annibynnol ac sy'n dilyn cyrsiau amser llawn mewn addysg bellach.**

**Costau teithio**

85. Mae dysgwyr anghyflogedig ar hyn o bryd yn gymwys i dderbyn cyfraniad tuag at gostau teithio os ydynt yn fwy na £5 yr wythnos. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol, dywedodd y Gweinidog wrthym fod oddeutu 11,300 o ddysgwyr yn derbyn cymorth tuag at gostau teithio a llety.[80] Fodd bynnag, dywedodd tystion wrthym fod cost teithio'n gallu rhwystro pobl rhag manteisio ar raglenni, a gall fod yn ffactor sy'n cyfrannu at bobl ifanc yn rhoi'r gorau i hyfforddiant. Clywsom oddi wrth nifer o dystion y gall y cyfuniad o gost a logisteg teithio fod yn rhwystr. Dywedodd Gyrfa Cymru mewn tystiolaeth ysgrifenedig fod Llywodraeth Cymru wedi ceisio mynd i'r afael â hyn ond, er hynny, bod costau'n dal i fod yn ffactor sy'n arwain at bobl yn rhoi'r gorau i raglenni dysgu seiliedig ar waith.[81]

86. Os oes yn rhaid i bobl ifanc sy'n agored i niwed dalu am gostau teithio o flaen llaw, rydym yn pryderu y gall hyn arwain at anawsterau ariannol. Galwodd Llamau am drefniant lle telir am gostau teithio

---

[79] Cofnod y Trafodion [122] 2 Tachwedd 2010, Y Pwyllgor Deisebau
[80] Papur y Pwyllgor Deisebau PET(3)15-10 Papur i'w nodi – Gwybodaeth ychwanegol y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes
[81] PET4: Tystiolaeth ysgrifenedig Gyrfa Cymru

trwy'r darparwr hyfforddiant yn uniongyrchol gan fod hyn yn gwneud hyfforddiant yn fwy hygyrch i berson ifanc.[82]

87. I'r rheini y mae hyn yn broblem iddynt, rydym o'r farn y dylai fod yn ddyletswydd ar y darparwr hyfforddiant i drefnu neu ddarparu cymorth wrth drefnu teithio i sicrhau bod y dysgwr yn hyderus ac yn gyfforddus i'w ddefnyddio. Bydd hyn yn helpu i gael gwared â rhwystr ychwanegol i'r rheini sydd fwyaf agored i niwed a bydd yn helpu i sicrhau cyfraddau cadw a chynnydd gwell.

88. Mae anhawster o ran teithio'n arbennig o enbyd i'r rheini sy'n byw mewn ardaloedd gwledig ac sy'n gorfod teithio pellteroedd hirach i gyrraedd lleoliadau. Gall cysylltiadau trafnidiaeth gwael wneud siwrneiau'n hynod o anodd. Dylid ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr ddarparu cymorth personol i sicrhau nad yw logisteg teithio'n dod yn rhwystr ychwanegol.

89. Rydym yn cydnabod barn y Gweinidog, a ddywedodd fod y system sydd ohoni'n caniatáu i ddarparwyr ymateb yn gyflym i newidiadau mewn costau teithio, a'i bod yn sicrhau ar y cyfan bod modd ymdopi â chostau teithio uchel. Fodd bynnag, rydym o'r farn y bydd newidiadau bach pellach ar gyfer y grŵp hwn o bobl ifanc yn eu helpu i ymdopi â chostau teithio'n fwy effeithiol. Rydym yn croesawu'r adolygiad o drefniadau cymorth ar gyfer costau a gwblheir yng ngwanwyn 2011.[83]

**Rydym yn argymell bod y Llywodraeth, fel rhan o'i hadolygiad o drefniadau cymorth ar gyfer costau, yn ystyried sut orau y gellir cefnogi'r rheini sydd fwyaf agored i niwed fel nad yw costau a logisteg teithio'n eu rhwystro rhag cymryd rhan. Fel rhan o'i hystyriaethau, dylai'r Llywodraeth ystyried a ddylai'r darparwr dalu am gostau teithio o flaen llaw ar gyfer y rheini sydd fwyaf agored i niwed, yn hytrach na defnyddio system ad-dalu.**

### Ffactorau eraill sy'n arwain at galedi ariannol

90. Yn ôl tystiolaeth Gyrfa Cymru, gall rhai darparwyr rhaglenni dysgu seiliedig ar waith ddidynnu tâl os yw dysgwr yn hwyr neu'n methu hyfforddiant. Maent yn cydnabod y gall hyn fod yn briodol i rai, ond gall gael effaith sylweddol ar y rheini sy'n byw'n annibynnol.[84] Yn ôl

[82] PET15: Tystiolaeth ysgrifenedig Llamau Cyf
[83] Papur y Pwyllgor Deisebau PET(3)15-10 Papur i'w nodi – Gwybodaeth ychwanegol y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes
[84] PET4: Tystiolaeth ysgrifenedig Gyrfa Cymru

Hyfforddiant Cyflogaeth Dinas a Sir Abertawe, gall hefyd effeithio ar bresenoldeb pobl ifanc sy'n agored i niwed oherwydd bod yn rhaid iddynt fynd at rywun yn hytrach na'r darparwr dysgu i gael cymorth, gan arwain at bod yn bresennol yn llai aml.[85]

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n darparu canllawiau i ddarparwyr rhaglenni dysgu seiliedig ar waith i sicrhau bod penderfyniadau sy'n ymwneud â didynnu tâl yn ystyried sefyllfa unigol y dysgwr ac nad ydynt yn achosi caledi anghymesur.**

91. Dywedodd Gyrfa Cymru a System Gofal a Chyfiawnder G4S y gall ad-dalu dysgwyr wythnos ar ôl iddynt dalu eu costau gael effaith anfanteisiol ar y rheini sy'n dibynnu ar y lwfansau i fyw. Mae'r costau sy'n gysylltiedig â dechrau cwrs, fel trefnu a thalu am deithio, yn gwneud y sefyllfa hon yn waeth fyth, gan ddod yn rhwystr arall rhag dilyn hyfforddiant.

92. Clywsom fod natur gymhleth budd-daliadau a ffrydiau ariannu'n drysu pobl ifanc, ac nad oeddent bob amser yn cael gwybodaeth fanwl gywir i'w galluogi i wneud dewis deallus ynglŷn â'u hopsiynau. Dywedodd Gweithredu dros Blant wrthym eu bod yn gwybod am bobl ifanc yn derbyn gwybodaeth wallus ynglŷn â'r hyn y maent yn gymwys i'w gael.[86] Roedd Gwasanaeth Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot hefyd o'r farn bod hyn yn broblem a gwnaethant bwysleisio'i bod yn hanfodol gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu cyfeirio at yr arbenigwyr perthnasol.[87]

93. Dygodd Gyrfa Cymru Morgannwg Ganol a Phowys, ITEC Training Solutions a Hyfforddiant Cyflogaeth Dinas a Sir Abertawe sylw at y ffaith nad oedd lefel y lwfans hyfforddi wedi'i hadolygu neu ei newid er 2006, heb unrhyw addasiad a oedd yn ystyried chwyddiant neu gostau byw, sy'n gwaethygu anawsterau ariannol ac yn rheswm arall sy'n ysgogi pobl ifanc i beidio â dilyn rhaglen.[88] Yn ôl eu cyflwyniadau, mae hyn yn rhywbeth y mae dysgwyr wedi sylwi arno, a gallai cynnydd bach helpu i wneud y rhaglen yn fwy deniadol.

94. Dywedodd y Gweinidog mewn tystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol fod lwfansau hyfforddi'n cael eu hadolygu fel rhan o waith

[85] PET22: Tystiolaeth ysgrifenedig Hyfforddiant Cyflogaeth Dinas a Sir Abertawe
[86] Cofnod y Trafodion [75] 28 Medi 2010, Y Pwyllgor Deisebau
[87] PET17: Tystiolaeth ysgrifenedig Gwasanaeth Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot
[88] Tystiolaeth ysgrifenedig PET5: Gyrfa Cymru Morgannwg Ganol a Phowys, PET13: ITEC Training Solutions, PET22: Hyfforddiant Cyflogaeth Dinas a Sir Abertawe

yn edrych ar y Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA).[89] Nid yw'n eglur a yw darparwyr dysgu'n chwarae rhan yn yr adolygiad hwn ai peidio, ond dylai unrhyw waith adolygu lwfansau yn y dyfodol gynnwys darparwyr fel rhan o'r broses hon.

**Newidiadau arfaethedig i lwfansau hyfforddi**

95. Clywsom oddi wrth dystion fod Llywodraeth Cymru wrthi ar hyn o bryd yn ystyried dichonoldeb cyflwyno Cynllun Lwfans Cynhaliaeth Addysg i raglenni dysgu seiliedig ar waith. Clywsom y gallai hyn arwain at ddysgwyr yn derbyn lwfans wythnosol llai o £30 yr wythnos. Rydym ar ddeall mai ar linyn ymgysylltu Adeiladu Sgiliau y byddai'r cynigion yn effeithio ac na fyddent yn effeithio ar bawb sydd ar raglenni dysgu seiliedig ar waith. Dywedodd nifer o dystion wrthym ar lafar ac yn ysgrifenedig am eu pryderon ynglŷn â'r cynigion.

96. Er y gallai Hyfforddiant ACT ddeall y rhesymeg y tu ôl i'r newidiadau, dywedasant,

> "[…] will be disastrous for that group of people who are really vulnerable, because £30 is a lot less than £50. I am worried about it; I think that there should be an exception to the rule."[90]

97. Awgrymodd ACT y gallai Gyrfa Cymru chwarae rôl wrth asesu sefyllfa'r person ifanc a phenderfynu pa lefel o lwfans sydd ei hangen.

98. Awgrymodd Gyrfa Cymru Morgannwg Ganol a Phowys yn eu tystiolaeth ei bod yn fwy tebygol y bydd hyn yn effeithio ar y rheini sydd fwyaf agored i newid oherwydd eu bod yn fwy tebygol o fynd ar drywydd y llinyn hwn o ddysgu seiliedig ar waith. Hefyd, gwnaethant ddweud y byddai'n ysgogi pobl ifanc i beidio â dilyn rhaglen ac y gallai arwain at lefelau uwch o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.[91]

99. Dywedodd Hyfforddiant Cyflogaeth Dinas a Sir Abertawe eu bod yn pryderu'n fawr ynglŷn â'r cynigion, gan eu bod o'r farn y byddent yn arwain at gynnydd yn nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Gwnaethant ddwyn sylw, ynghyd â thystion eraill, at y gwahaniaeth rhwng mynd i'r coleg amser llawn a dilyn

---

[89] Papur y Pwyllgor Deisebau PET(3)15-10 Papur i'w nodi – Gwybodaeth ychwanegol y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes
[90] Cofnod y Trafodion [89] Y Pwyllgor Deisebau 12 Hydref 2010
[91] PET4: Tystiolaeth ysgrifenedig Gyrfa Cymru Morgannwg Ganol a Phowys

rhaglenni dysgu seiliedig ar waith. Roeddent o'r farn y gallai'r dysgwr wneud mwy o oriau mewn amgylchedd sy'n gofyn mwy o weithgarwch corfforol, ac mai lwfans sy'n debyg i gyflog sy'n gwobrwyo ac yn ysgogi hyn orau.[92]

100. Dywedodd Rathbone wrthym y bu gostyngiad sylweddol yn nifer y bobl ifanc sy'n agored i niwed a oedd yn dilyn y cynllun pan gyflwynwyd newidiadau tebyg yn Lloegr, a phan ostyngwyd y Lwfans Cynhaliaeth Addysg i lefel debyg.[93]

101. Rydym yn nodi bod nifer o dystion wedi dwyn sylw yn eu tystiolaeth ysgrifenedig at y ffaith eu bod wedi cyflwyno achosion i Lywodraeth Cymru yn hyn o beth.

102. Mewn gohebiaeth ysgrifenedig â'r Pwyllgor, esboniodd y Gweinidog y bydd y cynigion presennol yn golygu y bydd dysgwyr sy'n gwneud 30 awr yr wythnos a mwy o 2011 ymlaen yn derbyn lwfans o £50 yr wythnos. Fodd bynnag, £30 yr wythnos y bydd y rheini a fydd yn dilyn y rhaglen 21 awr yr wythnos yn ei dderbyn. Ni fydd hyn yn destun prawf modd hyd nes ceir penderfyniad pendant ynglŷn â chyflwyno Lwfans Cynhaliaeth Addysg i'r rhaglen fel taliad lwfans safonol. I wahaniaethu rhwng yr LCA safonol a'r cynigion ar gyfer rhaglenni dysgu seiliedig ar waith, cyfeirir at y taliad £30 yr wythnos fel Lwfans Cynhaliaeth Hyfforddiant ym manyleb tendr dysgu seiliedig ar waith.[94]

103. Rydym yn croesawu datganiad y Gweinidog 'the most vulnerable (e.g. those living independently) will still be able to claim the differential between this allowance and any DWP benefits to which they may be entitled'. Fodd bynnag, rydym yn pryderu o hyd am y dryswch ynglŷn â'r cynigion ac effaith bosibl hyn ar bobl ifanc sy'n cychwyn rhaglen dysgu seiliedig ar waith.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod unrhyw newidiadau i lwfansau hyfforddi'n ystyried y set benodol o amgylchiadau y mae pobl ifanc sy'n agored i niwed yn eu hwynebu, ac nad ydynt yn arwain at incwm llai.**

---

[92] PET22: Tystiolaeth ysgrifenedig Hyfforddiant Cyflogaeth Dinas a Sir Abertawe
[93] Cofnod y Trafodion [91] Y Pwyllgor Deisebau 12 Hydref 2010
[94] Papur y Pwyllgor Deisebau PET(3)15-10 Papur i'w nodi – Gwybodaeth ychwanegol y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n egluro'r newidiadau arfaethedig i lwfansau hyfforddi yn well ar gyfer darparwyr hyfforddiant a sefydliadau cymorth i sicrhau eu bod yn gallu cynghori darpar ddysgwyr orau ar yr opsiynau sydd ar gael iddynt ac ar effaith ariannol eu penderfyniadau.**

## 6. Ansawdd darpariaeth dysgu seiliedig ar waith

104. Mae rheoli perfformiad yn effeithiol yn hanfodol wrth fonitro a rheoli ansawdd rhaglenni dysgu seiliedig ar waith. Clywsom oddi wrth dystion y bu gwelliannau sylweddol i'r ddarpariaeth mewn blynyddoedd diweddar a bod rôl arolygu Estyn wedi chwarae rhan hanfodol yn hyn o beth. Rydym hefyd yn cydnabod y bydd gwelliannau pellach i reoli perfformiad o ganlyniad i'r ymarfer aildendro, ac rydym yn gobeithio y gall ein hargymhellion helpu i gyfrannu at hyn.

105. Dywedodd Barnardo's Cymru a Gweithredu dros Blant wrthym fod angen monitro darpariaeth yn fwy cadarn o ran p'un a yw'n diwallu anghenion y rheini sydd fwyaf agored i niwed ai peidio.[95] Yn ôl darparwyr hyfforddiant, mae perfformiad wedi'i reoli'n well mewn blynyddoedd diweddar. Fodd bynnag, gwnaethant ddwyn sylw at angen am welliannau wrth nodi darpariaeth wael.[96]

106. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r mesuriadau cynnydd gwell a gyflwynir o 2010/11, a fydd yn golygu y bydd yn rhaid i ddysgwyr symud ymlaen i gyflogaeth neu ddysgu ar lefel uwch.

**Meini prawf mynediad ar gyfer rhaglenni dysgu seiliedig ar waith**

107. Clywsom bryderon y gall rhai darparwyr fod yn gyndyn o gynnig hyfforddiant i bobl ifanc sy'n agored i niwed, gan mai'r amgyffrediad weithiau yw eu bod yn llai tebygol o gwblhau cynlluniau hyfforddi, a all effeithio ar allu darparwr i gyrraedd targedau perfformio.[97] Yn ôl Swyddfa Archwilio Cymru, yn ystod eu gwaith dilynol ar ddarpariaeth dysgu seiliedig ar waith, roedd rhai darparwyr yn pryderu, os canolbwyntir ar ganlyniadau wrth reoli perfformiad, y gallai hyn annog darparwyr i ddewis y dysgwyr hynny sydd fwyaf tebygol o gyflawni canlyniad llwyddiannus. Gwnaethant bwysleisio nad bwriad eu gwaith

[95] Cofnod y Trafodion [33-34] 28 Medi 2010
[96] Cofnod y Trafodion [40] 12 Hydref 2010, Y Pwyllgor Deisebau
[97] PET4: Gyrfa Cymru

ar y dechrau oedd cadarnhau neu archwilio'r posibilrwydd hwn.[98] Yn eu cyflwyniad ysgrifenedig, dywedodd Hyfforddiant Cyflogaeth Dinas a Sir Abertawe y gallai mesurau perfformiad achosi i ddarparwyr ddewis y rhai mwyaf addawol i ddechrau ar eu rhaglenni, gan olygu y daw'r rheini sydd fwyaf agored i niwed dan fwy fyth o anfantais.[99]

108. Fodd bynnag, clywsom oddi wrth Rathbone a Hyfforddiant ACT eu bod yn ymwybodol o 'gwpl' o ddarparwyr yn unig sydd â meini prawf mynediad.[100] Cadarnhawyd hyn hefyd mewn tystiolaeth ysgrifenedig lle dywedodd ITEC eu bod yn aml yn rhagori ar safonau cymaryddion cenedlaethol, er eu bod yn ddarparwr 'drws agored'.[101] Nid yw'r dystiolaeth a glywsom yn awgrymu bod yna broblem helaeth o ran darparwyr yn dewis y dysgwyr mwyaf addawol.

**Mesur profiad y dysgwr**

109. Trwy gydol ein hystyriaeth o'r mater hwn, rydym wedi ei chael hi'n anodd sicrhau data empirig ar brofiad y dysgwr. O'r herwydd, mae'n anodd i ni ganfod yn union pa mor effeithiol yw rhaglenni dysgu seiliedig ar waith i ddysgwyr sy'n agored i niwed, heb unrhyw ddata i naill ai cadarnhau neu wrthbrofi tystiolaeth anecdotaidd. Rydym o'r farn y dylai fframwaith rheoli perfformiad effeithiol sicrhau bod ansawdd hyfforddiant yn cael ei fonitro yn yr ystyr ehangaf.

Dywedodd Hyfforddiant Rathbone wrthym

> "...it is also important to get learner feedback so that we can look at the positive progression rates, the qualification rates, the retention rates and what the young people think of their experience. That is something that we collate regularly, as do many providers. However, it could be collated and evaluated independently."[102]

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n dechrau casglu data ynghyd sy'n ymwneud â phrofiad y dysgwr, ac yn ei fonitro. Rydym o'r farn ei bod yn hanfodol cael ffordd effeithiol i asesu profiadau dysgwyr o ddysgu seiliedig ar waith. Dylai hyn fod yn elfen**

[98] PET24: Tystiolaeth ysgrifenedig Swyddfa Archwilio Cymru
[99] PET22: Tystiolaeth ysgrifenedig Hyfforddiant Cyflogaeth Dinas a Sir Abertawe
[100] Cofnod y Trafodion [69] 12 Hydref 2010, Y Pwyllgor Deisebau
[101] PET13: Tystiolaeth ysgrifenedig ITEC Training Solutions Cyf (ITEC)
[102] Cofnod y Trafodion [43] 12 Hydref 2010, Y Pwyllgor Deisebau

**allweddol o reoli perfformiad a dylid dechrau eu casglu fel rhan o'r contractau dysgu seiliedig ar waith newydd.**

**Rydym hefyd yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n ymchwilio i ffyrdd y gellir mesur a monitro effeithiolrwydd cymorth bugeiliol fesul darparwr yn y contractau dysgu seiliedig ar waith newydd, er mwyn sicrhau cysonder rhwng yr holl ddarparwyr.**

### Cyfradd 'gadael cyn gorffen'

110. Rydym o'r farn y dylid monitro'r gyfradd 'gadael cyn gorffen' fesul darparwr fel rhan o'r fframwaith rheoli perfformiad newydd. Gall hyn roi syniad da o effeithiolrwydd yr hyfforddiant a gynigir, fel y cydnabu Hyfforddiant ACT, 'a good provider would have very few people leaving its programmes and going back on the same programme as someone else'.[103] Roedd hyn yn fater allweddol a godwyd gan dystion ac mewn cyflwyniadau ysgrifenedig, gan gynnwys Gweithredu dros Blant, Rathbone, Hyfforddiant ACT a Gwasanaeth Oedolion/Gwasanaeth Ieuenctid Merthyr Tudful.

111. Rydym yn croesawu datganiad y Gweinidog y bydd mater 'gadael cyn gorffen' yn cael ei ystyried wrth i'r Llywodraeth geisio gwella'r meini prawf perfformio.[104] Rydym yn galw ar y Gweinidog i gynnwys mesuriadau i fonitro'r gyfradd 'gadael cyn gorffen' fesul darparwr ac yn gosod goddefiad derbyniol. Dylid sefydlu hyn o fewn y cyd-destun y bydd yna adegau pan fydd angen i ddysgwr newid darparwr.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n sefydlu goddefiad 'gadael cyn gorffen' derbyniol ar gyfer darparwyr ac yn monitro darparwyr yn erbyn hyn o ddechrau'r contractau dysgu seiliedig ar waith newydd.**

### Mynd i'r afael â pherfformiad gwael

112. Cododd ACT a Rathbone bryderon ynglŷn â'r mecanweithiau y gellir eu defnyddio i fynd i'r afael â pherfformiad gwael.[105] Roeddent o'r farn nad oes unrhyw fecanwaith priodol i Gyrfa Cymru ddelio â darpariaeth wael neu i'w ddwyn at sylw Llywodraeth Cymru. Clywsom, er bod y darparwyr hyfforddiant yn croesawu'r gwaith diweddar i symleiddio'r system trwy gael gwared â rheolwyr contract, roedd hyn

---

[103] Cofnod y Trafodion [58] 12 Hydref 2010, Y Pwyllgor Deisebau
[104] Cofnod y Trafodion [38] 2 Tachwedd 2010, Y Pwyllgor Deisebau
[105] Cofnod y Trafodion [28-30, 42], 12 Hydref 2010, Y Pwyllgor Deisebau

wedi arwain at fwlch yn y prosesau rheoli sy'n ei gwneud hi'n fwy anodd herio darpariaeth wael a delio â hi.[106] Pwysleisiodd yr holl ddarparwyr hyfforddiant bwysigrwydd targedau priodol i sicrhau bod pob darparwr yn bodloni safonau gofynnol penodol.

113. Clywsom oddi wrth y Gweinidog fod cyfundrefn arolygu Estyn yn gadarn, a bod y prosesau hyn yn dwyn sylw at berfformiad gwael,

> "It [Estyn] has introduced a set of core indicators, which will enable us to look at any suppliers that are underperforming or coasting. So, when we get reports back that a provider has received only an adequate score – or worse in a tiny minority of cases – the provider will have to provide us with a plan of action for addressing those failings, and we will follow that up with them."[107]

114. Rydym yn cydnabod bod perfformiad wedi'i reoli'n well mewn blynyddoedd diweddar, ond rydym yn pryderu nad oes system ddigon gadarn i ddwyn sylw at bryderon ynglŷn â darpariaeth wael.

**Rydym yn argymell bod protocolau eglur yn cael eu sefydlu i alluogi Gyrfa Cymru i ddwyn sylw Llywodraeth Cymru ac Estyn at bryderon ynglŷn â pherfformiad gwael, a bod holl wasanaethau Gyrfa Cymru'n defnyddio'r protocolau hyn i ddod â meysydd pryder i'r amlwg.**

# 7. Effeithiolrwydd gweithio mewn partneriaeth a chydweithio rhwng asiantaethau

115. Clywsom oddi wrth yr holl dystion ei bod yn bwysig bod asiantaethau'n gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth wrth gefnogi pobl ifanc sy'n agored i niwed. Rydym yn falch bod darparwyr rhaglenni dysgu seiliedig ar waith bellach yn cael eu cynnwys yn y rhwydweithiau 14-19 sydd wedi'u hen sefydlu, ond rydym yn nodi bod yr oedi cyn eu cynnwys wedi golygu na wnaed mynediad at wasanaethau cymorth ychwanegol yn rhan gwbl annatod o'r system.[108] Mae'r Pwyllgor hefyd yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru'n ariannu Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru i'w galluogi i gydweithio'n llawn yn lleol ac yn genedlaethol ar wella gwasanaethau.

[106] Cofnod y Trafodion [48-50], 12 Hydref 2010, Y Pwyllgor Deisebau
[107] Cofnod y Trafodion [29] 2 Tachwedd 2010, Y Pwyllgor Deisebau
[108] PET2: Tystiolaeth ysgrifenedig Hyfforddiant ACT i'r Pwyllgor Deisebau

**Rhwystrau rhag gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth**

116. Ymhlith y rhwystrau rhag cydweithio a gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol y dygodd tystion sylw atynt oedd hunanddiddordeb a chystadleuaeth, personoliaethau unigolion, daearyddiaeth a lleoliad yn ogystal â nifer o sefydliadau'n gweithio yn y maes hwn, a strwythurau atebolrwydd cymhleth.

117. Clywsom drosodd a thro fod nifer mawr y sefydliadau sy'n darparu cymorth i bobl ifanc sy'n agored i niwed yn rhwystr rhag gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth. Dywedodd Castell-nedd Port Talbot yn eu cyflwyniad y gall dryswch yn hyn o beth arwain at gymorth anghyson. Dygodd Gweithredu dros Blant sylw at natur gymhleth hyn yn eu tystiolaeth lafar,

> "We have recently looked at the situation in Blaenau Gwent and discovered that over 40 different organisations are working with young people in one of the tiniest boroughs in the UK, never mind Wales. I was floored; I had no idea that there were so many and I work with young people. [...] This is not a problem that any single agency can solve on its own, so we do need to work together, but I am quite sure that Blaenau Gwent does not need 40 agencies working with young people."[109]

118. Roedd y Ganolfan Byd Gwaith yn cefnogi'r farn hon, gan gadarnhau bod hyn yn rhwystr allweddol rhag gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth,

> "One barrier in Wales is the complexity of structure. There are local authority boundaries, spatial plan boundaries, local strategic plans and so on. There are many structures which have different accountabilities and slightly different targets, aims and objectives. Getting all that to feed into making a difference for the citizen at a local level is quite a challenge."[110]

119. Rydym yn cydnabod bod y rhain yn faterion sy'n mynd ymhell y tu hwnt i gwmpas yr ymchwiliad, ond rydym o'r farn y byddai'n ddefnyddiol gwneud gwaith mapio i nodi'r holl asiantaethau sy'n darparu cymorth i bobl ifanc. Rydym yn cefnogi argymhelliad y Pwyllgor Menter a Dysgu sy'n galw am ddynodi asiantaeth arweiniol ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

---

[109] Cofnod y Trafodion [69] 28 Medi 2010, Y Pwyllgor Deisebau
[110] Cofnod y Trafodion [164] 2 Tachwedd 2010, Y Pwyllgor Deisebau

Byddai'r asiantaeth hon yn galluogi cydlynu partneriaethau'n effeithiol a rheoli'r siwrneiau ar gyfer pobl ifanc.[111]

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n dynodi asiantaeth arweiniol, megis Gyrfa Cymru, i weithio ar lefel leol i sicrhau cydweithio a gweithio mewn partneriaeth effeithiol ar gyfer pobl ifanc sy'n agored i niwed. Fel rhan o hyn, rydym yn argymell ymgymryd ag ymarfer mapio i nodi'r holl sefydliadau sy'n darparu cymorth i bobl ifanc sy'n agored i niwed.**

120. Yn ôl Cymorth Cymru,

> "…it is vitally important that work-based learning programmes are well tied into end-to-end frameworks of support that take individuals right from disengagement to sustainable employment. This requires the involvement of numerous partners, who communicate well and work together to ensure that vulnerable individuals are supported to move towards independence through attainment of learning, skills and employment."[112]

121. Dywedodd tystion wrthym fod tensiwn yn gallu codi wrth gydweithio pan rydych yn delio â sefydliadau sydd, yn y pen draw, yn cystadlu am fusnes.[113] Atgyfnerthwyd y farn hon yng nghyflwyniad ysgrifenedig Ymddiriedolaeth y Tywysog a ddywedodd nad oedd y gystadleuaeth rhwng darparwyr am gyllid yn ffafriol i ddatblygu amgylchedd y bydd cydweithio a gweithio mewn partneriaeth yn ffynnu ynddo. Maent yn galw am gynllunio ffrydiau ariannu mewn modd sy'n annog cydweithio.

122. Clywsom oddi wrth amrywiaeth o dystion y gall y broses dendro reolaidd hefyd greu ansefydlogrwydd i ddarparwyr, a all ansefydlogi darpariaeth a dargyfeirio cronfeydd.[114] Dywedodd Hyfforddiant Cyflogaeth Dinas a Sir Abertawe wrthym y gall y materion hyn effeithio ar fynediad at hyfforddiant a'r modd o'i gyflenwi. Gwnaethant alw am leihau lefelau ansefydlogrwydd trwy newidiadau i'r broses dendro.[115]

---

[111] Y Pwyllgor Menter a Dysgu, *Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant*, 15 Hydref 2010
[112] PET7: Tystiolaeth ysgrifenedig Cymorth Cymru i'r Pwyllgor Deisebau
[113] Cofnod y Trafodion [110] 12 Hydref 2010, Y Pwyllgor Deisebau
[114] PET13: Tystiolaeth ysgrifenedig ITEC Training Solutions
[115] PET22: Tystiolaeth ysgrifenedig Hyfforddiant Cyflogaeth Dinas a Sir Abertawe

**Gwelliannau i gydweithio**

123. Clywsom alwadau am wneud cyllid cymorth rhwydwaith 14-19 yn ddibynnol ar sicrhau bod pob darparwr a rhanddeiliad yn chwarae rhan, gan gynnwys darparwyr rhaglenni dysgu seiliedig ar waith[116] ac rydym yn falch y bu'r Gweinidog yn gadarnhaol ynglŷn â'r awgrym hwn yn ei dystiolaeth lafar.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n ystyried sut gellir cefnogi ac ariannu'r rhwydweithiau 14-19 orau i sicrhau eu bod yn cynnwys pob sector addysg, ac i hwyluso gweithio mor effeithiol â phosibl mewn partneriaeth.**

124. Dygodd Llamau sylw at bwysigrwydd agenda sgiliau a lles integredig,

> "Discussions need to take place with the DWP and the Welsh Assembly about how the skills agenda and welfare agenda link up more cohesively, as the current system is preventing people in supported or social housing from progressing towards employment."[117]

125. Rydym yn croesawu sefydlu'r Cyd-fwrdd Cyflenwi Rhaglenni Cyflogaeth, sydd â'r nod o wella'r gweithio mewn partneriaeth rhwng asiantaethau Cymru a'r DU. Rydym yn falch o weld bod nifer o brosiectau eisoes wedi'u sefydlu a fydd, gobeithio, yn arwain at wella darpariaeth gwasanaeth.

# 8. Casgliadau

126. Gall dysgu seiliedig ar waith fod yn ddull effeithiol iawn i bobl ifanc ddatblygu eu sgiliau a symud i gyflogaeth. Mae gwelliannau i ddysgu seiliedig ar waith wedi bod yn sylweddol dros flynyddoedd diweddar. Mae'r aildendro am gontractau'n darparu cyfle rhagorol i wella mwy fyth ar bethau, gan sicrhau ei fod yn gynllun sy'n ddeniadol ac yn briodol i bobl ifanc sy'n agored i niwed.

127. Rydym yn cydnabod bod rhaglenni dysgu seiliedig ar waith yn gweithio i'r mwyafrif o bobl ifanc, ond rydym yn pryderu bod y rheini sydd fwyaf agored i niwed, yn enwedig y rheini sy'n byw'n annibynnol, yn wynebu rhwystrau ychwanegol. Rydym yn cydnabod gwaith y

[116] PET13: ITEC Training Solutions
[117] PET15: Tystiolaeth ysgrifenedig Llamau Cyf

darparwyr hyfforddiant sydd, ar y cyfan, yn darparu cymorth i'r rheini sydd fwyaf agored i niwed. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod y system yn dal i fethu yn achos rhai pobl ifanc, a bod angen gwelliannau i leihau'r risg o hyn yn digwydd.

128. Rydym hefyd yn cydnabod bod yr hinsawdd economaidd sydd ohoni'n golygu bod y cronfeydd sydd ar gael yn gyfyngedig. Fodd bynnag, bydd ymyrryd yn gynnar yn lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ac yn lleihau'r tebygrwydd y byddant yn dibynnu ar y wladwriaeth yn y dyfodol. Bydd hyn, yn y pen draw, yn gost-effeithiol yn y tymor hir.

129. Mae'n hanfodol cael asesiad anghenion effeithiol cyn i ddysgwr ymuno â darparwr, a dylid nodi cymorth ychwanegol ar gyfer y rheini sydd fwyaf agored i niwed bryd hyn. Ochr yn ochr â hyn, mae caffael sgiliau sylfaenol yn hanfodol i ddysgwyr gwblhau eu hyfforddiant yn llwyddiannus, ac mae angen mynd i'r afael â hyn mewn modd sy'n berthnasol ac yn briodol iddyn nhw.

130. Er bod dysgu seiliedig ar waith yn rhaglen hyblyg iawn ar y cyfan, mae angen bod â threfniadau diogelu ar waith i sicrhau bod pob darparwr yn cynnig dull hyblyg a phersonol o weithredu sy'n gweddu orau i anghenion unigol dysgwyr.

131. Mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y buddion a ddaw i ran cyflogwyr yn sgil ymwneud â dysgu seiliedig ar waith yn cael eu hybu'n eang a bod cyflogwyr yn cael eu hannog i gymryd rhan er mwyn sicrhau'r sail ehangaf o gyfleoedd lleoli. Dylid canolbwyntio ar sicrhau bod cyfleoedd ar gael i bawb, yn enwedig y rheini sy'n byw mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd eraill sydd â chysylltiadau trafnidiaeth gwael.

132. Mae cymorth personol effeithiol yn gwbl hanfodol i gwblhau rhaglenni dysgu seiliedig ar waith yn llwyddiannus. Clywsom nad yw lefel y cymorth personol yn gyson rhwng y gwahanol ddarparwyr. Rydym yn croesawu cyflwyno swyddogaeth yr anogwr dysgu yn y contract newydd, ond rydym o'r farn bod angen o hyd am fwy o fanylion i sicrhau bod cymorth personol yn effeithiol i bawb. Mae hwn hefyd yn faes y dylid monitro darparwyr yn agosach ynddo.

133. Rydym yn pryderu'n enwedig ynglŷn â'r caledi ariannol y mae pobl ifanc sy'n agored i niwed yn ei wynebu, gan y gall hyn eu hysgogi i beidio â dechrau cwrs a gall fod yn ffactor sy'n cyfrannu atynt yn

rhoi'r gorau i'w cwrs. Rydym o'r farn ei bod yn hanfodol mynd i'r afael â'r gwahaniaeth rhwng incwm pobl ifanc sy'n agored i niwed mewn addysg bellach ac incwm y rheini ar raglenni dysgu seiliedig ar waith, a hynny fel mater o frys.

134. Er bod yna systemau arolygu a rheoli perfformiad effeithiol ar waith, mae yna le i wella o hyd. Mae'n arbennig o bwysig casglu data ynghyd ynglŷn â phrofiadau dysgwyr, a'u gwerthuso'n annibynnol. Cafodd y Pwyllgor hi'n anodd gydol yr ymchwiliad i ddod o hyd i ddata empirig a fyddai'n darparu sail tystiolaeth fwy gadarn na thystiolaeth gwbl anecdotaidd. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod yna ddigon o dystiolaeth anecdotaidd i awgrymu bod darpariaeth yn methu yn achos rhai o'r bobl ifanc sydd fwyaf agored i niwed.

135. Mae'n hanfodol bod yr holl asiantaethau sy'n darparu cymorth i bobl ifanc sy'n agored i niwed yn cydweithio, a bod yna fecanweithiau ar waith i sicrhau gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth. Mae angen nodi'n fwy eglur y rheini sy'n gweithio gyda'r bobl ifanc hynny sydd fwyaf agored i newid, a chael eglurhad gwell ohonynt.

136. Rydym am sicrhau bod pobl ifanc sy'n agored i niwed yn cael eu cefnogi ar raglenni dysgu seiliedig ar waith a'u bod yn gallu symud ymlaen i hyfforddiant pellach neu gyflogaeth. Mae angen i ni sicrhau bod y grŵp hwn yn gallu gwireddu eu dyheadau ac nad ydynt yn teimlo bod eu dewisiadau'n gyfyngedig, fel roedd un person ifanc y clywsom ganddo'n teimlo,

> "After my training I want to carry on to do level 2 and level 3. Unless the training allowance is to change, I guess that I will be on jobseekers allowance, because I will not be able to afford to live on my own."[118]

[118] Cofnod y Trafodion [64] Y Pwyllgor Deisebau 11 Mai 2010

## Atodiad A: Tystion

Darparodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar i'w gweld yn llawn yn http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-other-committees/bus-committees-third-pc-home/bus-committees-third-pc-agendas.htm

*28 Medi 2010*

| | |
|---|---|
| Cath Black | Gweithredu dros Blant |
| Chris Ramus | Gweithredu dros Blant |
| Sally Jenkins | Barnardos Cymru |

*12 Hydref 2010*

| | |
|---|---|
| Andrew Cooksley | Hyfforddiant ACT |
| Richard Newton | Rathbone Cymru |

*2 Tachwedd 2010*

| | |
|---|---|
| Linda Badman | Canolfan Byd Gwaith Cymru |
| Rowan Foster | Yr Adran Gwaith a Phensiynau |
| June Price | Canolfan Byd Gwaith Cymru |

*2 Tachwedd 2010*

| | |
|---|---|
| Leighton Andrews AC | Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Andrew Clark | Dirprwy Gyfarwyddwr Dros Dro, Polisi Addysg Uwch ac Addysg Bellach, Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Teresa Holdsworth | Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Sgiliau Busnes, Llywodraeth Cynulliad Cymru |

## Atodiad B: Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig

Darparodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl dystiolaeth ysgrifenedig i'w gweld yn llawn yn http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-other-committees/bus-committees-third-pc-home/pet3_listofinquiries/pet_inq_wbl/pet3_inq_wbl_evidence.htm

| *Sefydliad* | *Cyfeiriad* |
|---|---|
| Gweithredu dros Blant | PET(3)-11-10 Papur 1 |
| Barnardo's Cymru | PET(3)-11-10 Papur 2 |
| Y Ganolfan Byd Gwaith/Yr Adran Gwaith a Phensiynau | PET(3)-13-10 Papur 2/PET(3)-15-10 Papur i'w nodi |
| Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes | PET(3)-13-10 Papur 1/PET(3)-15-10 Papur i'w nodi |
| Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru/Hyfforddiant ACT | PET(3)-12-10 Papur 2 |
| Rathbone Cymru | PET(3)-12-10 Papur 1 |

## Atodiad C: Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Fe ymatebodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn i'r galw am dystiolaeth. Mae'r holl ymatebion i'w gweld yn llawn yn http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-other-committees/bus-committees-third-pc-home/pet3_listofinquiries/pet_inq_wbl/pet_inq_wbl_responses.htm

PET1 Gweithredu Dros Blant

PET2 Hyfforddiant ACT

PET3 Barnardo's Cymru

PET4 Gyrfa Cymru

PET5 Gyrfa Cymru Morgannwg Ganol a Phowys

PET6 Comisiynydd Plant Cymru

PET7 Cymorth Cymru

PET8 Rhwydwaith 14-19 Sir Ddinbych

PET9 Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

PET10 Estyn

PET11 Fairbridge De Cymru

PET12 Gwasanaethau Gofal a Chyfiawnder G4S

PET13 ITEC Training Solutions Cyf

PET14 Links-Wales

PET15 Llamau Cyf

PET16 Gwasanaethau Oedolion/Ieuenctid Merthyr Tudful

PET17 Gwasanaeth Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot

PET18 Rhwydwaith Dysgu 14-19 Sir Benfro

PET19 Ymddiriedolaeth y Tywysog Cymru

PET20 Rathbone Cymru

PET21 Canolfan Galw i Mewn Ieuenctid Senghennydd

PET22 Hyfforddiant Cyflogaeth Abertawe

PET23 Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Bro Morgannwg

PET24 Swyddfa Archwilio Cymru

PET25 Cymdeithas Dai Cymru a Gorllewin Lloegr